# Brocer Iaith Peblig

## GWERTHUSO A DATBLYGU MODEL

## Adroddiad Terfynol

Gorffennaf 2012

Prosiect wedi'i werthuso a'r adroddiad wedi'i baratoi gan

hywelevans cyf

datblygu economaidd a chymdeithasol
economic and social development
mentora a hwyluso coaching and facilitation

Dolau, Llanbrynmair, Powys, SY19 7DL

t: 07785521642

e: post@hywelevans.co.uk

## Brocer Iaith Peblig - Gwerthuso a Datblygu Model

# Adroddiad Terfynol

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Prif benawdau | 4 |
| Crynodeb | 5 |
| 1. Cyflwyniad | 12 |
| 2. Cyd-destun a gweledigaeth | 13 |
| 3. Gwybodaeth gefndir | 15 |
| 4. Gwerthuso / Y Fframwaith ag elfennau allweddol | 18 |
| 5. Gweithredu'r Prosiect | 21 |
| 5.1 Magu perthynas / mapio darpariaeth | 21 |
| 5.2 Ymchwil a Datblygu | 22 |
| 5.3 Gweithgaredd | 25 |
| 5.4 Gwasanaethau cefnogi | 32 |
| 5.5 Crynhoi'r profiad | 33 |
| 6. Gwerthuso | 34 |
| 7. Casgliadau a gwersi | 36 |
| 8. Elfennau allweddol model brocer iaith | 41 |
| 9. Argymhellion | 43 |

# Prif benawdau

**Mae profiad gweithredu prosiect Brocer Iaith Peblig wedi dangos**

- **bod modd defnyddio sgiliau ieithyddol wrth gefnogi unigolion i symud at waith**
- **bod rhaid i'r gwaith gael ei wreiddio mewn corff lleol**
- **bod angen mawr am ddatblygu sgiliau sylfaenol Cymraeg (ac fe grëwyd darpariaeth newydd)**
- **bod modd gweithio gyda chyrff eraill ond bod angen hefyd darparu cefnogaeth yn uniongyrchol**
- **bod mentro yn ogystal â gwaith yn ganlyniad posib**
- **bod angen parhau â'r gwaith - ym Mheblig a Gwynedd, ac mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.**

***Hoffwn ddiolch i'r holl bobl a fu'n cyfrannu at baratoi'r adroddiad hwn - yn arbennig y Brocer Iaith Bet Huws a thrigolion Peblig a fu'n barod iawn i rannu eu profiadau. Hywel Evans***

# Crynodeb

## 1. Cyflwyniad

Gan mai cynllun peilot yw Brocer iaith Peblig sy'n anelu i "ymchwilio a threialu dulliau newydd…", o'r cychwyn nodwyd cynhyrchu Adroddiad Gwerthuso fel un allbwn allweddol. Yn ogystal nodwyd "datblygiad o fodel wedi'i brofi y gellid ei drosglwyddo…" fel un o'r canlyniadau creiddiol i'r prosiect.

Nid bwriad y Prosiect oedd darparu gwasanaethau newydd, ond yn hytrach dod â gwasanaethau oedd eisoes yn bodoli (o ran cyflogaeth ac iaith) at ei gilydd, a'u teilwra, a phontio rhyngddynt â thrigolion yr ardal fel brocer. Yn gryno, y weledigaeth o ran y Prosiectau "…cefnogi trigolion Peblig i geisio am swyddi lle mae'r Gymraeg yn bwysig…"

## 2. Magu perthynas a mapio darpariaeth

Yn greiddiol i'r prosiect oedd iddo gael ei osod a'i integreiddio i waith Partneriaeth Pobol Peblig, sef y corff a oedd yn gyfrifol, yn ystod y cyfnod, am weithgareddau rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn ward Peblig.

Gyda'r pwyslais canolog ar sicrhau cydgysylltiad rhwng yr holl wasanaethau cyflogaeth a'r rhai ieithyddol, roedd angen mynd ati'n fwriadol i sefydlu'r berthynas ag ystod o'r sefydliadau mwyaf arwyddocaol (yn hytrach na neidio mewn i weithredu gyda'r peryg o ddyblygu a gwneud cynaladwyedd tymor hir y gwaith yn fwy bregus). Mewn sefyllfaoedd fel hyn mae'n aml yn angenrheidiol i gysylltu gyda llawer cyn gallu adnabod y rhai mwyaf perthnasol.

## 3. Ymchwil a datblygu

Comisiynwyd gwaith ymchwil gan Sylfaen Cyf er mwyn deall mwy am agweddau trigolion Peblig tuag at y Gymraeg. Cynhaliwyd dau weithdy gyda 20 o bobl (yn cynnwys amrediad oedran a chefndir) er mwyn i'r trigolion eu hunain gyfrannu at y broses. Comisiynwyd gwaith ymchwil a datblygu 'Mentergarwch ym Mheblig' - i fapio darpariaeth presennol, asesu anghenion, datblygu canllaw cefnogi a chynllunio gweithredu. Cynhaliwyd un sesiwn drafod gyda grŵp o gyflogwyr.

## 4. Gweithgaredd

**Cefnogaeth unigol / Brocera -** dros gyfnod o amser i ddod â'r holl elfennau at ei gilydd.

**Iaith ar Waith** - cwrs peilot ar y cyd â Choleg Menai i godi hyder a sgiliau dwyieithog.

**Iaith Gwaith!** - datblygwyd cwrs newydd yn adeiladu ar brofiad y prosiect, wedi ei deilwra i bobl sydd allan o waith.

**Gwna fo dy hun** - sef cwrs cyfrwng Cymraeg ar y cyd gyda Coleg Harlech.

**Prosiect Digidol Peblig** - cynllun rhwng BT, Pobol Peblig a Choleg Menai er mwyn codi statws y Gymraeg o ran Technoleg Gwybodaeth.

**Plas Pawb** - cyfres o weithdai ar codi hyder cyffredinol a ieithyddol.

**5 cam** - treialwyd cryno gwrs o bum sesiwn (mewn cydweithrediad â swyddogion

Cymunedau'n Gyntaf a Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

**Lleoliadau** - fel rhan o ddarpariaeth hyfforddi a cyfleoedd.
**Mentergarwch** - ddatblygwyd Canllaw Mentro, a cynhaliwyd cwrs arbrofol yn gweithio drwy'r Canllaw. Cychwynnwyd trafod datblygiadau ehangach gyda partneriaid.
**Cyswllt a gweithgareddau eraill** – bu sawl enghraifft o gyplysu gyda cynlluniau eraill.

## 5. Profiad unigolion

Ceir yn adran 5 hanesion unigolion a fu mewn cyswllt â'r prosiect. Dyfynnir rhai elfennau cryno isod.

**Mae angen i wasanaethau cefnogol gydnabod yr angen i gynorthwyo pobl i ddelio â rhwystrau mewnol personol cyn y gallant symud ymlaen i waith. Mae darparu'r gefnogaeth yna yn effeithiol yn gallu golygu gosod y Gymraeg yn rhan annatod o'r gwasanaeth.** Fe brofodd rôl y Brocer Iaith, o fewn cyd-destun Tŷ Peblig (Cymunedau'n Gyntaf), yn greiddiol ac yn allweddol i alluogi un person i symud drwy'r rhwystrau hyn i fod yn barod i weithredu - "swn i ddim di gallu neud oni bai". O'i gymharu â'r cyngor a gafodd "o lefydd swyddogol" ("You've got no hope to do that…") roedd rôl gefnogol y Brocer yn ei galluogi i symud i'r sefyllfa o fod yn barod i weithio. "Mae'r Gymraeg 'di neud gwahaniaeth i bob dim - yn codi'r ysbryd i fyny, a'r hyder…".

**Mae symud o fod ag ofn mynd allan o'r tŷ i fod mewn gwaith parhaol yn dipyn o siwrne.** Dyma ddigwyddodd i un person a fu'n cael cefnogaeth y Brocer Iaith a'r gwasanaethau ehangach o fewn Tŷ Peblig (Cymunedau'n Gyntaf). Trwy gydol yr amser bu'r Brocer yn cefnogi ac yn annog defnydd o'i sgiliau Cymraeg. Roedd y twf graddol mewn hyder personol yn cydfynd â'r datblygiad mewn hyder ieithyddol. Daeth cyfle i wneud cais am swydd dros dro i weithio mewn cangen unigol o gadwyn o siopau drwy Gymru a Lloegr. Er iddi holi'r i'r Brocer i gwblhau'r ffurflen gais drosti, fe wnaeth y Brocer ei pherswadio a'r chefnogi i wneud hynny ei hun. Fe gafodd gyfweliad, â'r cyflogwr yn mynegi gwerthfawrogiad ei bod wedi llwyddo i gwblhau'r cais ei hun. Fe gafodd gefnogaeth wrth baratoi am y cyfweliad ac er y gystadleuaeth helaeth am y swydd, fe fu'n llwyddiannus. "Dw i 'di bod yn ferch, yn fam, yn bartner…ond 'dw i 'di ffeindio fy hunan rwan."

**Mae'n hawdd i rai sydd mewn gwaith yn gyson i anghofio effeithiau dinistriol personol bod allan o waith.** "Dw i'n mynd yn bored pan dw i ddim yn gweithio. Pan dw i'n gweithio mae bywyd lot fawr yn well, a dw i'n cadw o drwbwl." Bu'r Brocer Iaith yn gweithio gyda'r person yma i gychwyn trwy gyfrwng y cwrs Iaith Gwaith. Cafodd gefnogaeth i'w alluogi ei hun i gwblhau CV Cymraeg yn ogystal ag un Saesneg, ac i ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer dogfennau a negeseuon dwyieithog. Bu ar leoliad tymor byr ble roedd angen gallu cyfathrebu yn Gymraeg â'r gweithwyr yn arbennig. Fe sylweddolodd bod gallu cyflwyno CV yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg yn cynnig mantais iddo o ran sicrhau gwaith – yn bonws oedd yn help i fod ar y blaen i eraill. "Os 'di cyflogwr yn gweld CV Saesneg yn unig a'r person yn dweud bod nw'n Gymraeg hefyd, a fi'n rhoi CV Cymraeg a Saesneg, fi sy'n mynd i'r peil 'Ie' am job." Mae rôl Brocer Iaith yn cynnwys chwilio am gyfleoedd lleol i bobl gael blas ar waith go iawn. Gwelodd Brocer Iaith Peblig gyfle yn sgîl dyfodiad Eisteddfod yr Urdd i Glynllifon ger Caernarfon. Bu mewn cysylltiad â'r Urdd i drafod a nodi cyfleoedd posib i gydweithio. Un cyfle a ddaeth i'r amlwg oedd am waith diogelwch dros dro. Fe gafwyd cytundeb i gynnig cyfleoedd i bobl â'r cyfuniad priodol o sgiliau, gan gynnwys rhai ieithyddol addas, i geisio am y gwaith hwn.

# 6. Canlyniadau

**Gweithgaredd (Cynllun Gwreiddiol)**

| | |
|---|---|
| Nifer o drigolion a gefnogwyd dros gyfnod – 46<br>Nifer o drigolion a fynychodd ddigwyddiadau - 398 | 444 |
| Nifer o gynlluniau gweithredu unigol | 17 |
| Nifer o leoliadau tymor byr | 15 |
| Prosiect Ymchwil Cymunedol | Cwblhawyd 2 |
| Adroddiad terfynol | Cwblhawyd |

**Gweithgaredd / canlyniadau ehangach**
Mae peryg mawr i roi sylw yn unig i 'ganlyniadau' meintiol.

Mae rhai canlyniadau yn ymddangos nad oeddent wedi eu hadnabod yn y cynllun gwreiddiol, er enghraifft:

- **datblygwyd ac achredwyd darpariaeth newydd sgiliau sylfaenol llythrennedd i'r agenda penodol hwn (a'r holl ddeunyddiau perthnasol):**
- **crëwyd techneg / pecyn newydd Canllaw Menter a cysylltu â gweithredwyr penodol yn y maes, gyda'r potensial o arwain at drywydd newydd sbon - eto na ragwelwyd cyn cychwyn;**
- **datblygwyd adnoddau newydd o ran paratoi CV yn Gymraeg (ar wahanol lefelau);**
- **addaswyd darpariaeth ymwybyddiaeth iaith i'r cynulleidfaoedd hyn (yn drigolion ac yn gyrff darparu gwasanaethau cyflogaeth).**

**Yn ogystal mae 'na ganlyniadau yn ymddangos sydd yn fwy ansoddol - yn arbennig wrth weithio'n unigol gyda thrigolion dros amser** (gweler y straeon personol yn adran 5).

# 7. Prif Gasgliadau a Gwersi

### Cyffredinol

- Mae profiad cychwynnol y prosiect wedi dangos, drwy'r cyfuniad o weithgaredd a chefnogaeth un-i-un, bod modd defnyddio dimensiwn sgiliau ieithyddol fel rhan bwysig o'r broses o gefnogi bobl i symud tuag at waith.
- Mae'n angenrheidiol i waith broceriaeth iaith gael ei wreiddio i gyd-destun a gweithgaredd adfywio cymunedol, economaidd a ieithyddol.
- Mae'r lefelau ymwybyddiaeth am berthnasedd y Gymraeg o ran dod o hyd i waith i'w gweld yn uchel – ond mae hyder mewn sgiliau ieithyddol yn isel iawn.
- Mae angen cyfnod hirach er mwyn manteisio i'r eithaf ar y profiad rhagarweiniol hwn - ac osgoi gwastraffu'r buddsoddiad gwreiddiol.
- Proses tymor hir yw newid agweddau ieithyddol/cymdeithasol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn, a'r diffyg hyder sy'n aml ynghlwm â'r rhain.

### Trigolion

- Mae profiad y prosiect yn dangos yn glir bod awydd i symud at waith ymysg llawer, a bod modd, trwy gamau bychain, hybu'r daith honno.
- Er mwyn arfogi llawer o drigolion i symud mlaen a gwella'u sefyllfa, mae angen sylweddol am ddarpariaeth addas o ran sgiliau sylfaenol ieithyddol / Cymraeg sydd wedi ei deilwra i'r sefyllfaoedd cymdeithasol a ieithyddol sy'n amlwg yn yr ardaloedd perthnasol. Fe ddatblygwyd deunyddiau i'r pwrpas gan y prosiect.

### Rôl brocera Iaith

- O ran rôl brocera mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng
    - gallu gweithio trwy gyfrwng asiantaethau a sefydliadau eraill
    - ond hefyd gallu llenwi'r bylchau o ran gweithredu yn uniongyrchol.
- Daeth yn amlwg bod yr elfen sylfaenol o weithio gydag unigolion, a hynny dros amser, yn hollol greiddiol i rôl brocera effeithiol.
- O ran cydweithio â chyrff eraill mae'r prosiect wedi dangos yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth iaith; canolbwyntio ar y cyrff hynny sy'n gweld budd o gyd-weithio; peidio gwario amser yn ceisio gweithio gyda chyrff sy'n dangos dim diddordeb. Mae dipyn o ffordd i fynd cyn y gellid sôn am brif-ffrydio go iawn.

### Cyflogwyr

- Er bod rhywfaint o genhadu cyffredinol gyda chyflogwyr yn digwydd, fe brofodd yn fwy buddiol i gysylltu â hwy yn unigol i bwrpas penodol - yn arbennig o ran lleoliadau tymor byr.
- Mae'n amlwg y byddai gosod sgiliau Cymraeg o fewn anghenion sgiliau swyddi (o fewn fframwaith lefelau) yn bwysig.

**Mentergarwch**

- Mae'n flaenoriaeth chwilio am gyfleoedd ymarferol i gael blas go iawn ar 'neud pres', cychwyn busnes, mentrau cymdeithasol newydd neu gan gyd-weithio gyda'r cyrff sydd eisoes yn darparu gwasanaethau o'r fath.
- Fe fydd yn allweddol gwreiddio rôl Brocer Iaith o fewn y cynlluniau newydd yn yr ardal.

**Asesu newid**

- Awgrymir y dylid mynd ati yn y cyfnod nesaf i greu fframwaith (gosod meincnod ac asesu newid) addas a'i dreialu (gan ddefnyddio unrhyw arfer nodedig allanol neu a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect).
- Dylai'r fframwaith gynnwys arolwg agweddol (wyneb yn wyneb) i'w ailadrodd bob tair mlynedd; proses o ddilyn trywydd dros amser unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau; sefydlu 'panel' o drigolion, yn unigolion a teuluoedd, y gellid sicrhau adborth gyson ganddynt.

**Ardaloedd daearyddol**

- Gall yr egwyddorion a'r gwersi o'r prosiect hwn fod yn berthnasol mewn pob math o ardaloedd - ond iddynt gael eu teilwra a'u gweithredu yn wahanol fel bo'n addas.

## 8. Elfennau allweddol model brocer iaith – yn adran 8

Wrth grisialu profiad gweithredu prosiect Brocer iaith Peblig, gellir crynhoi'r elfennau allweddol - a fyddai angen wrth weithredu gweithgaredd tebyg mewn ardaloedd eraill:

- bod y trigolion yn ganolbwynt a ffocws y gwaith
- bod dwy elfen i rôl y Brocer, un o ran cysylltu â'r ystod o wasanaethau cefnogi allanol a'r llall o ran darparu rhai gweithgareddau yn uniongyrchol
- bod 'cartref' i'r Brocer - hynny yw, corff lleol sy'n gweithredu ym meysydd adfywio cymunedol, economaidd, ieithyddol;
- bod angen diffinio'r ardal weithredol - gyda'r prif ffocws ar ble mae'r trigolion yn byw, ond gan gydnabod bod yr ardal naturiol economaidd (ble mae'r gwaith) yn debyg o fod yn ehangach
- bod elfen benodol i osod seiliau'r gwaith - gan gynnwys mapio darpariaeth bresennol, ymgysylltu'n ystyrlon â thrigolion, gosod meincnodau a chynllunio (gan ymgorffori ffyrdd o adolygu ar hyd y daith)
- bod gweithredu o bob math yn uniongyrchol trwy gyfrwng cefnogaeth un-i-un, cyrsiau, lleoliadau ac yn y blaen; ac yn ehangach fel rhan o weithgaredd y corff 'cartref' neu eraill.

# 9. Argymhellion

Yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru 'Iaith fyw: iaith byw' nodir:

"Byddwn hefyd yn ystyried a oes modd efelychu'r gwaith sydd wedi'i wneud o fewn Ardal Adfywio Strategol Môn Menai, sy'n cynnwys y fenter Brocer Iaith ym Mheblig, mewn ardaloedd eraill."

**Argymhelliad 1**

**Mae angen cyfnod hirach er mwyn manteisio i'r eithaf ar y profiad rhagarweiniol hwn - ac osgoi gwastraffu'r buddsoddiad gwreiddiol. Dylid sicrhau parhad i'r gwaith cychwynnol o fewn cyd-destun gwaith Cymunedau'n Gyntaf ar ei ffurf newydd yng Ngwynedd.**

**Argymhelliad 2**

**Gan fod y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol Cymraeg newydd a ddatblygwyd o fewn y prosiect yn llenwi bwlch arwyddocaol, dylid ehangu ei ddefnydd.**

**Argymhelliad 3**

**Byddai'n allweddol cynnwys elfennau Brocer Iaith o fewn unrhyw gynllun mentergarwch newydd (sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd) a wireddir yn yr ardal, o ran gwreiddio'r elfennau ieithyddol ac wrth gyfrannu at sicrhau fod y gwaith rhagarweiniol gyda phobl leol yn cael ei gwblhau.**

Yn ehangach, tra bod rhai gwersi eisoes wedi'i dysgu, mae eraill am gymryd cyfnodau hirach i'w gwireddi - yn adlewyrchu'r agenda tymor hir a'r ffyrdd o weithio sy'n fwy tebygol o arwain at gynaladwyedd ac effeithiau mwy ystyrlon.

Er mwyn sicrhau manteisio ar y Gymraeg fel arf yn y broses o wireddu elfennau o'r agenda adfywio cymunedol ac economaidd mae angen rôl broceriaeth

- mewn ardaloedd ble mae canrannau uchel o bobl yn siarad Cymraeg, er mwyn pontio'r bylchau rhwng trigolion, eu hymwybyddiaeth o'u sgiliau ieithyddol, cyrff cefnogi perthnasol, cyflogwyr a chyfleoedd i fentro;
- mewn ardaloedd ble mae llai o bobl yn siarad Cymraeg ond ble mae canran arwyddocaol o bobl ifanc yn datblygu sgiliau Cymraeg trwy gyfrwng addysg ddwyieithog - yn y cyd-destun hwn er mwyn pontio yn benodol gyda meysydd gwaith a chyflogwyr sydd angen y sgiliau ieithyddol hynny.

**Argymhelliad 4**

**Wrth barhau â'r gwaith brocera yn ward Peblig a'r ardal ehangach berthnasol o fewn Cymunedau'n Gyntaf ar ei newydd wedd – fe ddylid trin yr ardal fel labordy ar gyfer gweddill Cymru. Bydd hyn y sicrhau bod y gwersi tymor hir a'r technegau mwyaf effeithiol yn cael eu datblygu, a bod modd parhau i'w rhannu gydag ardaloedd eraill.**

**Argymhelliad 5**

**Dylid rhannu'r gwersi hyd yma (ac yn barhaol) gydag amrywiaeth o ardaloedd yn benodol o fewn y cyd-destun eang adfywio economaidd, cymdeithasol a ieithyddol. Bydd hyn yn creu clwstwr ehangach o brofiad ymarferol nodedig - gan greu rhwydwaith dysgu a gweithredu parhaus.**

**Argymhelliad 6**

**Yn sgil sefydlu Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg, dylid archwilio ffyrdd o gynorthwyo asiantaethau sy'n ymwneud â chyflogaeth i weithredu'n addas o ran gwasanaethau Cymraeg. Yn ehangach dylid sicrhau bod y cyrff prif ffrwd yn blaenoriaethu ffyrdd o gyd-weithio'n fwriadol gyda gwaith Brocera Iaith.**

**Argymhelliad 7**

**Dylid cyplysu'r gwaith hwn gydag ymdrechion ehangach i gyd-gysylltu cyflogwyr o bob math â'r agenda sgiliau a'r Gymraeg.**

# 1. Cyflwyniad

Gan mai cynllun peilot yw Brocer iaith Peblig sy'n anelu i "ymchwilio a threialu dulliau newydd…" o'r cychwyn nodwyd cynhyrchu Adroddiad Gwerthuso fel un allbwn allweddol. Yn ogystal nodwyd "datblygiad o fodel wedi'i brofi y gellid ei drosglwyddo…" fel un o'r canlyniadau creiddiol i'r prosiect.

Cytunwyd y byddai'n fanteisiol, er mwyn sicrhau'r budd eithaf o'r broses werthuso, i wau'r gwaith o adlewyrchu a dysgu gwersi i mewn i weithredu'r prosiect drwy gydol y cyfnod. Felly cytunwyd i baratoi Adroddiad Interim ym Mawrth 2011, yn ogystal ag Adroddiad Terfynol ar ddiwedd y prosiect.

Dyma'r Adroddiad Terfynol felly sy'n

- gosod cyd-destun y gwaith, a'r weledigaeth
- crynhoi'r wybodaeth gefndir (o ran cefnogaeth ac iaith) a nodi'r gwasanaethau a'r asiantaethau cefnogi perthnasol - o ran adfywio, cyflogaeth ac iaith
- disgrifio'r Fframwaith Werthuso
- nodi gweithgaredd y cynllun a'r cyswllt a thrigolion, cyflogwyr a gwasanaethau cefnogi
- adlewyrchu ar y profiad cychwynnol a chrisialu'r gwersi
- cynnig fframwaith o fodel y gellid ei fabwysiadu'n ehangach
- nodi'r camau nesaf posib.

# 2. Cyd-destun a gweledigaeth

Bu sawl ymgais yn y gorffennol i ymchwilio a gweithredu o ran deall y cysylltiad rhwng sgiliau ieithyddol Cymraeg ag anghenion cyflogwyr.

"Ym mis Awst 2008 cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio, Leighton Andrews, pecyn werth £1m o ariannu ar gyfer ystod o brosiectau peilot yn tanlinellu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi'r Iaith Gymraeg trwy ei waith adfywio strategol." (cynllun gwreiddiol)

Sicrhaodd Cymdeithas Tai Eryri adnoddau i archwilio'n ymarferol, trwy Brosiect 3 mlynedd, oblygiadau datblygu cyswllt agosach rhwng nodweddion ieithyddol trigolion un ardal ddaearyddol benodol (ward Peblig yng Nghaernarfon, sef yr ardal â'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yng Nghyfrifiad 2001) â chyfleodd gwaith lleol ble roedd sgiliau Cymraeg yn berthnasol. Gosodwyd y Prosiect yng nghyd-destun yr agenda adfywio cyffredinol yn ogystal â'r gwaith o gynllunio ieithyddol gyda'r bwriad o ddysgu gwersi y gallai fod o ddefnydd yn ehangach.

Nid bwriad y Prosiect oedd darparu gwasanaethau newydd, ond yn hytrach dod â gwasanaethau oedd eisoes yn bodoli (o ran cyflogaeth ac iaith) at ei gilydd, a'u teilwra, a phontio rhyngddynt â thrigolion yr ardal fel brocer.

Yn gryno, y weledigaeth o ran y Prosiect yw

"…cefnogi trigolion Peblig i geisio am swyddi lle mae'r Gymraeg yn bwysig…"


Mae 2 garfan allweddol felly, sef

- Trigolion
- Cyflogwyr

a 2 gyfundrefn gefnogi

- Cefnogaeth gyffredinol (gymunedol a gwaith)
- Cefnogaeth ieithyddol (hyder a sgiliau)

Bwriad y prosiect, felly, yw ceisio dod a Thrigolion Peblig a Chyflogwyr yn agosach trwy gyfrwng defnydd pwrpasol o gyfuniad o wasanaethau cefnogi cyffredinol a ieithyddol.



Nodau'r prosiect yn y cynllun gwreiddiol yw

- ymchwilio a threialu dulliau newydd o gynllunio iaith sy'n paru sgiliau iaith trigolion Peblig gydag anghenion iaith cyflogwyr lleol yng Nghaernarfon
- datblygu rhaglen hyfforddiant a chefnogaeth addas gan gydweithio â rhaglenni sy'n bodoli eisoes ar gyfer pobl ddi-waith yr ardal
- cydweithio â thrigolion Peblig i asesu effeithiolrwydd y gwasanaethau cyflogaeth a dderbyniant, a pha gefnogaeth a roddir i'r Gymraeg o fewn y gwasanaethau hynny
- datblygu methodoleg sy'n hyrwyddo manteision economaidd yr iaith Gymraeg yn y gweithle, a ellir ei defnyddio mewn lleoliadau eraill ar ddiwedd y prosiect

Ers cynllunio'r prosiect yn wreiddiol, mae'r dirywiad economaidd yn golygu bod swyddi o fewn y sector breifat eisoes yn fwy prin yn yr ardal. Ond yn ogystal, dros gyfnod gweithredu'r prosiect, bydd y pwysau ar wariant cyhoeddus yn sicr o effeithio ar faint o swyddi fydd ar gael yn y sector gyhoeddus - yn arbennig yn ardal Caernarfon.

Ariannwyd y Prosiect gan gyfuniad o Adran Adfywio Llywodraeth Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Roedd yr Adran Adfywio'n awyddus i ddysgu o'r Prosiect, o ran

- sut mae'n (cyfrannu at) magu hyder trigolion i chwilio am waith
- ffyrdd effeithiol i gael cyflogwyr i weld Peblig a'r trigolion fel adnodd
- sut mae magu ymwybyddiaeth a hyder ieithyddol ymysg trigolion a chyflogwyr
- y graddau mae'r math yma o weithgaredd yn ychwanegi gwerth, a sicrhau bod y gymuned yn elwa.

Pwysleisiodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yr angen i ddysgu o'r profiad er mwyn ei efelychu mewn ardaloedd eraill, gan ystyried

- y gwahaniaeth mae'r Prosiect yn gwneud, a'r 'gwerth' ieithyddol o'r buddsoddiad
- y cyfle i weithio gyda'r Prosiect i gynyddu'r ymwybyddiaeth a'r gweithredu ystyrlon gan ddarparwyr gwasanaethau i leihau anweithgarwch economaidd (yn benodol yn ardal Môn Menai i gychwyn).

Yn ehangach, gan mai pontio rhwng a defnyddio cynlluniau sy'n bod eisoes yw ffocws y gwaith (yn hytrach na chreu gweithgaredd newydd sbon), mae magu ystod o gysylltiadau perthnasol yn amlwg yn bwysig i'r Prosiect.

# 3. Gwybodaeth gefndir a Gwasanaethau Cefnogi

Wrth baratoi'r adroddiad hwn nid oedd ffigurau Cyfrifai 2011 ar gael. Yn fras mae ffigyrau Cyfrifiad 2001 am ward Peblig yn nodi

| | |
|---|---|
| - poblogaeth gyfan | 2,301 |
| - poblogaeth oedran gwaith | 1,344 |
| - gweithgar economaidd | 830 |
| (er bod hyn yn cynnwys 'di-waith' am gyfnod byr o 155) | |
| - anweithgar economaidd | 440 |
| (oedran gwaith ond wedi tynnu rhai wedi ymddeol a myfyrwyr) | |

Felly, yn gryno, o gyfuno'r anweithgar a'r di-waith, o gwmpas 600 (595) o bobl (oedran gwaith) ddim yn gweithio (266 dynion, 329 merched). Mae'n amlwg bod angen archwilio ffigurau mwy diweddar, yn sgil Cyfrifiad 2011.

Yn Awst 2008 gwnaeth Arwel Jones Associates grynodeb o wybodaeth (ar draws pob math o feysydd) am Ward Peblig. Yn benodol o ran cefndir economaidd (eto o wybodaeth 2001 i gychwyn):-

*"Most economically active people in Peblig were in full-time employment (69.3%) than part-time (30.7%), although this reversed for women, with 52.1% working part-time and 47.9% full-time. These full-time percentages are lower than for Gwynedd and GB as a whole, but higher for those in part-time work.*

*Of those economically active, only 6.5% and 5.2% were ni managerial or professional posts respectively, almost half the Gwynedd average and some 45% the GB figure. A corresponding 26.4% were in elementary occupations, compared to 14.3% for Gwynedd and a GB figure of 11.8%. The percentage of those offering personal services or working as process plant and machine operatives was also higher than the county and national average.*

*886 or 56.4% of the Peblig population had no known qualifications, compared to 36.6% for the county and 35.8% nationally. This was higher for those who were unemployed (60.4%) with only 3.8% of those attaining higher level qualifications, compared to 13.7% for Gwynedd and 14.5% nationally.*

*Total Job Seeker's Allowance recipients in Peblig in 2008 were 102, or 7.6% of those of working age. Most were male (83% of those on JSA). These figures were significantly higher than county and national levels. Most were aged 25-49 and had been claiming for up to six months, which is not unlike the county and national profiles.*

*In May 2007, Peblig had 500 DWP benefit claimants, or 37.1% of the resident working age population. Most were on incapacity benefits (230), followed by job seekers (100) and lone parents (90). Peblig had some 2.5 times as many claimants as a percentage of the resident working age population than Gwynedd and the national average, with over 3 times as many job seekers.*

*Male full-time unemployment and lack of relevant qualifications seem to be the main challenges, along with the need to develop job and career progression from unskilled manual labour to more supervisory and management positions. "*

O ran gwybodaeth ieithyddol paratowyd 'Proffil ieithyddol Tref Caernarfon' gan Caran Wyn Roberts ym Mehefin 2008. Yno mae'n nodi

"Tabl 1: Dengys y tabl isod ganrannau'r boblogaeth 3 oed a throsodd sydd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad **2001** yn ward etholiadol Peblig yng Nghaernarfon

| Oed | Peblig |
|---|---|
| **3 a throsodd** | **88.4** |
| 3-4 | 73.8 |
| 5-15 | 94.0 |
| 16-19 | 96.5 |
| 20-24 | 94.6 |
| 25-39 | 86.1 |
| 40-49 | 88.1 |
| 50-59 | 85.2 |
| 60-64 | 88.9 |
| 65-74 | 79.4 |
| 75 a throsodd | 87.2 |

**Gan mai craidd y prosiect yw pontio (h.y. brocera) rhwng gwasanaethau sydd eisoes yn bod â thrigolion a chyflogwyr, mae'n ddefnyddiol nodi'r math o wasanaethau sydd fwyaf perthnasol i'r gwaith.**

***Gwasanaethau adfywio*** - sef yn bennaf Cymunedau'n Gyntaf yn y cyd-destun hwn, gan fod Peblig yn ward sy'n un o'r rhai ble mae'r rhaglen tymor hir hwn wedi bod yn gweithredu ynddi. Mae Pobol Peblig yn bartneriaeth sydd dan ofal Cymdeithas Tai Eryri, ac wedi bod yn gweithredu ystod eang o wasanaethau a chynlluniau ers 2003. Yn y cyfnod mwyaf diweddar mae'r pwyslais, yn gyffredinol o ran Cymunedau'n Gyntaf, wedi symud tuag at themâu mwy penodol - fel cynyddu gweithgarwch economaidd / lleihau anweithgarwch. Mae'r berthynas gyda Pobol Peblig felly yn un hollol allweddol i'r Prosiect Brocer Iaith - o ran meysydd gwaith yn ogystal ag o ran ymgysylltu'n effeithiol â thrigolion, a chyd-gysylltu â gweithgareddau eisoes ar y gweill.

Ond yn ogystal â Chymunedau'n Gyntaf, mae dimensiwn arall i waith adfywio sy'n berthnasol. Mae ardal Môn Menai (gan gynnwys Ward Peblig) yn un a sawl Ardal Adfywio Strategol yng Nghymru - sy'n galluogi cynlluniau arbennig i ddatblygu yn ôl anghenion lleol. Un perthnasol iawn i'r prosiect Brocer Iaith yw Prosiect Anweithgarwch Môn Menai sy'n ymgais i gyd-lynu rhannu gwybodaeth rhwng yr holl gyrff amrywiol sy'n delio â materion cyflogaeth a lles.

***Gwasanaethau iaith*** - yn ogystal â'r berthynas gyda holl weithgaredd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei hun, mae cyswllt â chyrff a gwasanaethau eraill yn amlwg yn bwysig i'r cynllun. Nid oes Menter Iaith draddodiadol yng Ngwynedd. Ond mae 'Hunaniaith' yn cwmpasu'r holl weithgaredd penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar draws y sir - yn bartneriaeth o gyrff ac yn dîm o staff dan adain Cyngor Gwynedd.

Yn ogystal mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion (sy'n gweithredu yn yr ardal) yn darparu ystod o wasanaethau datblygu sgiliau iaith - yn bennaf yn y meysydd traddodiadol ond yn ogystal yng nghyd-destunau penodol. Sgiliaith / Coleg Menai sydd wedi datblygu a darparu dulliau ieithyddol mewn cyd-destun gwaith, gan gynnwys cyrsiau penodol (Iaith ar Waith) yn ymwneud â chyflogaeth.

***Cyflogaeth a lles*** - sy'n cael eu rheoli / cydlynu gan gyrff fel Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru sy'n darparu cyngor ac arweiniad ac sydd, yn eu tro, yn cyfeirio cleientiaid ar ystod eang o gyrff sydd wedi eu cytundebu i ddarparu gwasanaethau amrywiol. Yn ogystal mae sefydliadau eraill wedi sicrhau ariannu o amrywiol ffynonellau er mwyn cyrraedd at rhai nad ydynt yn tueddi i ymwneud â'r prosiectau prif-ffrwd (trwy gyfrwng cynlluniau fel Genesis, Y Porth Ymgysylltu, ac eraill). Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu pob math o gyngor, mentora, lleoliadau a hyfforddiant. O ran Canolfan Byd Gwaith bu newidiadau mawr yn ystod cyfnod gweithredu'r prosiect o ran ad-drefnu'r prif raglenni lles trwy gyfrwng y Rhaglen Waith (Work Programmw). Felly bu cryn newid o ran y cyrff a gytundebwyd i ddarparu gwasanaethau hyn yn ystod cyfnod gweithredu.

Mae cyswllt gan y cyrff arweiniol yn ogystal â'r darparwyr gyda chyflogwyr yn ogystal â thrigolion. Yn wir mae gan rhai cyrff (Canolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru er enghraifft) swyddogion penodol i ddelio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr. Mae asesu sefyllfa'r farchnad lafur lleol hefyd yn rôl bwysig i Gyrfa Cymru.

***Menter / cychwyn busnes*** - gyda'r perthnasedd cynyddol i'r agwedd hon (o fentro eu hunain yn hytrach na dim ond dibynnu ar swyddi), mae sawl asiantaeth dan gytundeb yn gweithredu yn yr ardal, dan adain yr Adran Economi a Thrafnidiaeth (yn wreiddiol), erbyn hyn Busnes Menter Technoleg a Gwyddoniaeth. Mae'r rhain yn darparu cyngor a hyfforddiant i'r rhai sydd eisoes wedi penderfynu cychwyn busnes / hunan gyflogaeth. Ond hefyd mae cymorth penodol i'r rhai sy'n ystyried mentro ond sy'n annhebyg o fwrw mlaen heb gael cyfle i gael blas ar y profiad, yn ymarferol. Roedd Menter a Busnes yn darparu'r gwasanaeth Blas ar Fusnes (Y ffatri Fenter) mewn rhannau o ardal Môn Menai yn ystod y cyfnod. Yn ogystal mae cynlluniau unigol eraill yn cefnogi, sefydlu a datblygu mentrau cymdeithasol neu gydweithredol.

# 4. Gwerthuso / Y Fframwaith ag elfennau allweddol

Mae gwerthuso yn elfen bwysig o wireddu unrhyw gynllun - yn arbennig felly rhai sy'n anelu at ddatblygu / treialu mathau newydd o weithredu. Gall fod yn berthnasol a defnyddiol wrth fod yn rhan annatod a gwrthrychol o gynllun trwy gydol ei weithredu, wrth fwydo gwersi a galluogi newid a chryfhau parhaus.

O'r cychwyn gwelwyd gwerthuso'r Prosiect fel elfen greiddiol o'r gwaith er mwyn gwireddu'r awydd i siapio a phrofi modd o weithredu y gellid ei drosglwyddo i ardaloedd eraill. Comisiynwyd Hywel Evans i gwblhau'r gwerthuso.

Nod ac amcanion y gwerthuso yw

Cynorthwyo'r Prosiect i sicrhau'r gweithredu mwyaf effeithiol, a distyllu'r gwersi er mwyn dysgu gymaint â phosib o'r profiad trwy

- gynorthwyo i ddatblygu'r fframwaith o ran gweithgaredd, canlyniadau a dulliau o'u mesur / asesu
- gynhorthwy i gynllunio'r camau gweithredu, a'r dulliau adrodd o ran partneriaid allweddol (e.e. LlCC, ByIG ac eraill o bosib)
- gynllunio a gweithredu elfennau o ymgynghori / holi hynt buddiolwyr, cyflogwyr a phartneriaid
- sicrhau cyfleoedd cyson i adlewyrchu a chynghori ar holl elfennau gweithredu'r Prosiect
- grisialu'r gwersi allweddol a'u bwydo i'r broses o weithredu'r Prosiect, er mwyn sicrhau datblygiad parhaus
- ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd i ffurfio model y gellid ei fabwysiadu mewn ardaloedd eraill
- grynhoi holl elfennau'r gwerthuso mewn 2 Adroddiad, Interim a Therfynol.

**Y Fframwaith Werthuso**

Cynllun arbrofol yw Prosiect Brocer Iaith Peblig - gyda'r bwriad o ddysgu gwersi ar gyfer defnydd posib mewn ardaloedd a sefyllfaoedd eraill.

Yn ogystal â rhestri'r gwersi unigol a ddaw i'r golwg yn sgil adlewyrchu bwriadol ar waith y Prosiect, anelir at ffurfio model cyfansawdd y gellir ei ddatblygu / addasu. Craidd y model bydd:

- Rhesymeg (h.y. disgrifio pam bod angen y gweithgaredd)
- Theori / Ymyrraeth (er mwyn sbarduno newid)
- Mewnbwn (buddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol)
- Gweithgaredd (disgrifiad o'r hyn sy'n digwydd)
- Canlyniadau (lefelau / niferoedd / mathau o newid)

## Rhesymeg

Mae rhaglenni Adfywio'n targedi ardaloedd daearyddol penodol, trwy ddatblygu is-strwythur, yn ogystal ag ehangu galluoedd economaidd a chymdeithasol trigolion lleol. Bu Cymunedau'n Gyntaf yn bwysig yn hyn o beth yng Nghymru, a sefydlwyd Ardaloedd Adfywio Strategol penodol.

Trwy Fentrau Iaith a gweithgareddau eraill bu ffocws lleol i gynllunio parthed yr iaith Gymraeg.

Mewn rhai ardaloedd gall ddolenni'r ddwy agwedd bod o fudd yn economaidd yn ogystal ag yn gymdeithasol.

## Effeithiau

### Mesuradwy?

- cynnydd mewn defnydd trigolion o wasanaethau datblygu sgiliau Cymraeg
- % cynnydd mewn cyflogwyr yn dynodi'r angen am sgiliau ieithyddol Cymraeg o fewn disgrifiadau anghenion swyddi

### Ehangach?

- cynnydd mewn gweithgaredd economaidd (swyddi, gwerth swyddi, busnesau newydd, hunan gyflogaeth)
- cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yng nghyd-destun gwaith / mentrau newydd

## Theori / Ymyrraeth

Peilota model i asesu potensial yr iaith Gymraeg a sgiliau dwyieithog i leihau anweithgarwch economaidd a diweithdra - drwy ddolenni trigolion ward Peblig gyda chyflogwyr lleol, swyddi a chyfleodd mentro trwy

- ymchwil a gweithgaredd peilot
- datblygu rhaglen cefnogi sgiliau iaith a chysylltu gyda rhaglenni cyflogaeth
- adolygu effeithiolrwydd elfennau Cymraeg o'r rhaglenni cyflogaeth
- datblygu modd o hyrwyddo perthnasedd economaidd y Gymraeg a ellid ei ddefnyddio mewn ardaloedd eraill

## Mewnbwn

- Adnoddau Adfywio (LICC)
- Adnoddau cefnogi'r iaith Gymraeg (ByIG)
- Apwyntio Brocer iaith
- Amser staff Tai Eryri
- Cyflenwyr gwasanaethau ymchwil a datblygu a gwerthuso trwy gydol y peilot

## Gweithgareddau

- integreiddio gyda Chymunedau'n Gyntaf er mwyn sicrhau bod trigolion yn cymeryd rhan / engaged
- datblygu cysylltiadau a chyflogwyr lleol
- sefydlu cysylltiadau / partneriaethau a darparwyr gwasanaethau cyflogaeth
- gweithio gyda thrigolion er mwyn sicrhau cyswllt a rhaglenni a chyrff cefnogi eraill
- mapio darpariaeth Cymraeg a'i addasrwydd i gwrdd ag anghenion lleol, yna teilwra darpariaeth gyda darparwyr er mwyn gweithredu i ddatblygu sgiliau ieithyddol
- trefnu gyda chyflogwyr bod modd cael blas o waith
- ymchwilio a datblygu gweithgaredd i godi ymwybyddiaeth o fentergarwch ac ymarfer mewn cyswllt a darparwyr lleol
- comisiynu ymchwil cymunedol
- crynhoi gwersi trwy gydol y broses er mwyn ffurfio model a fyddai'n ddefnyddiol mewn mannau eraill

## Allbynnau

- nifer trigolion a gefnogir
- nifer gweithgaredd
- nifer lleoliadau tymor byr
- prosiectau ymchwil cymunedol
- nifer o enghreifftiau o weithio gyda darparwyr gwasanaethau
- darpariaeth llythrennedd sgiliau sylfaenol newydd (Cymraeg) i oedolion
- adroddiad terfynol

## Canlyniadau

- cynyddu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg
- cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel asset yn y gweithle
- cynnydd yn y defnydd ymwybodol o'r Gymraeg mewn gwaith a mentrau
- gwell cyswllt rhwng Cymunedau'n Gyntaf â chefnogaeth cyflogaeth
- datblygiad o fodel wedi'i brofi y gellid ei drosglwyddo
- fframwaith ymarferol o sgiliau Cymraeg mewn gwaith, i gyflogwyr
- cynnydd mewn ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg gan ddarparwyr gwasanaethau
- intergreiddio gweithgaredd cyn cychwyn busnes

Effeithiau (mesuradwy ac ehangach)

Elfennau allweddol (o ran gwerthuso)

- Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel ased yn y gweithle
- Hyder o ran y Gymraeg a'i ddefnydd mewn cyswllt gwaith / menter
- Lefelau sgiliau ieithyddol
- Cyswllt rhwng Cymunedau'n Gyntaf a'r gwasanaethau cefnogi cyflogaeth
- Ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg gan ddarparwyr gwasanaethau cefnogaeth
- Cyswllt â gwasanaethau cefnogi / cychwyn busnes
- Fframwaith sylfaenol sgiliau Cymraeg mewn gwaith, o ran cyflogwyr
- Adnabod yr elfennau craidd ar gyfer model o weithredu y gellid ei addasu a'i fabwysiadu yn ehangach.

(Canlyniadau dymunol yn y cynllun gwreiddiol:

- Cynnydd o ran hyder yng ngallu trigolion i ddefnyddio eu Cymraeg
- Cynnydd mewn ymwybyddiaeth bod y Gymraeg yn ased mewn cyflogaeth
- Mwy o bobl yn derbyn cefnogaeth wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwaith
- Gwell ymgysylltu a chydweithio ar gefnogaeth cyflogaeth rhwng Cymunedau'n Gyntaf ac asiantaethau rheng flaen
- Datblygiad model wedi ei brofi y delid ei drosglwyddo)

# 5. Gweithredu'r Prosiect

## 5.1 Magu perthynas a mapio darpariaeth

Yn greiddiol i'r prosiect oedd iddo gael ei osod a'i integreiddio i waith Partneriaeth Pobol Peblig, sef y corff a oedd yn gyfrifol, yn ystod y cyfnod, am weithgareddau rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn ward Peblig.

Gyda'r pwyslais canolog ar sicrhau cydgysylltiad rhwng yr holl wasanaethau cyflogaeth a'r rhai ieithyddol, roedd angen mynd tai'n fwriadol i sefydlu'r berthynas ag ystod o'r sefydliadau mwyaf arwyddocaol (yn hytrach na neidio mewn i weithredu gyda'r peryg o ddyblygu a gwneud cynaladwyedd tymor hir y gwaith yn fwy bregus). Mewn sefyllfaoedd fel hyn mae'n aml yn angenrheidiol i gysylltu gyda llawer cyn gallu adnabod y rhai mwyaf perthnasol.

Datblygwyd cysylltiad cychwynnol â chyrff cyflogwyr yn y sector breifat - Ffederasiwn Busnesau Bach, Siambr Fasnach Caernarfon, Partneriaeth Caernarfon a Fforwm Busnes Gwynedd. Anelwyd at ddatblygu cyswllt â'r cyrff perthnasol sydd â rôl gyffredinol o gysylltu â chyflogwyr (yn arbennig Canolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru) er mwyn sicrhau integreiddio gwaith y prosiect gymaint â phosib. Mynychwyd digwyddiadau perthnasol eraill yn ymwneud a cyflogwyr, e.e. Brecwast Sgiliau Busnes Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Ond yn ogystal, yn hytrach na dibynnu ar gyswllt cyflogwyr trwy gyrff eraill, aethpwyd ati i gysylltu'n uniongyrchol a nifer bychan o gyflogwyr, er mwyn cychwyn adnabod anghenion ac i sicrhau ambell weithgaredd penodol.

Yn naturiol gwnaed y cyswllt penna gyda thrigolion trwy gyfrwng Pobol Peblig (Cymunedau'n Gyntaf).

O ran cyrff cefnogi cyflogaeth, datblygwyd cysylltiad gyda Phrosiect Anweithgarwch Môn Menai, sef y cyfwng i ddod â'r ystod eang o gyrff sy'n darparu gwasanaethau annibynnol ym maes cyflogaeth a sgiliau at ei gilydd. Yn amlwg bu rhaid canolbwyntio ar rhai cyrff - fel y rhai craidd, e.e. Canolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru. Darparwyd cyflwyniadau i gyfarfodydd Prosiect Môn Menai, gwnaethpwyd cyswllt a chyrff darparu unigol, a bu cyfle i ymateb i ymholiadau unigol gan rai, fel A4E a Scout Enterprises. Yn sgil newidiadau a ddaeth wrth weithredu'r Rhaglen Waith newydd, aethpwyd ati eto i geisio sefydlu cyswllt defnyddiol gyda'r darparwyr gwasanaethau (newydd).

Yn sgîl sawl elfen o'r prosiect, gwnaethpwyd cysylltiad ag adrannau perthnasol yng Ngholeg Menai. O ran cyrff cefnogi ieithyddol, mae'r cyswllt a Hunaniaith a Chyngor Gwynedd wedi datblygu. Bu'r cyswllt cychwynnol â'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion yn tueddu i awgrymu mai dysgu iaith i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg yw'r brîf ffocws. Ond erbyn hyn mae gwaith a chyswllt y Ganolfan â datblygu sgiliau iaith bobl ddi-waith ar gynnydd. Bu'r cyswllt a Sgiliaith (a Choleg Menai felly) yn allweddol i rhai o'r gweithgareddau cychwynnol.

## 5.2 Ymchwil a datblygu

Comisiynwyd gwaith ymchwil gan Sylfaen Cyf er mwyn deall mwy am agweddau trigolion Peblig tuag at y Gymraeg a'u barn o ddisgwyliadau cyflogwyr o ran yr iaith Gymraeg. Ymysg prif negeseuon yr ymchwil (a gynhaliwyd trwy gyfrwng 6 grŵp ffocws yn cynnwys cyfanswm o 26 o bobl - y rhan fwyaf dan 25 oed)

- roedd canran uchel yn ystyried y Gymraeg yn gymorth o ran sicrhau gwaith
- ond, byddai canran uchel hefyd yn pryderu am eu sgiliau ysgrifennu a darllen Cymraeg - gyda'r sylw yn ymddangos yn aml "nad ydynt yn gyfarwydd â 'Chymraeg posh'"

Wrth ymdrin â'r agenda lleihau anweithgarwch economaidd, mae'r broses o gefnogi pobl i symud drwy'r cyfnodau / camau gwahanol yn aml yn cael ei ddisgrifio fel 'siwrne' - o'r cyswllt cychwynnol hyd at, yn y pendraw, bod mewn gwaith sefydlog. Mae amryw ffurf i ddisgrifio'r siwrne yma, yn cael ei ddefnyddio gan wahanol sefydliadau. Er enghraifft, datblygwyd y siwrne gan Brosiect Môn Menai 'Taith y Cwsmer'.

O ran deall ble mae rhai o drigolion Peblig ar siwrne o'r fath, roedd angen i'r Prosiect geisio casglu gwybodaeth (gan y trigolion eu hunain yn ogystal â gan eraill).

Un sialens ganolog wrth weithredu Prosiect fel hwn (yn ogystal ag wrth ei werthuso) yw cyrraedd bobl – ymgysylltu â thrigolion Peblig yn yr achos hwn. Gan mae gweithio gydag ystod o weithgaredd, gwasanaethau a sefydliadau sydd eisoes yn gweithredu gyda thrigolion oedd ffocws y Prosiect, mae gallu ymgysylltu a bobl yn dibynnu ar y graddau mae'r sefydliadau hyn yn eu cyrraedd go iawn. Wrth gwrs, roedd gan y Prosiect fantais bod Partneriaeth Pobol Peblig wedi sefydlu yn yr ardal. Mae'r Prosiect felly wedi gallu manteisio ar gysylltiadau'r Bartneriaeth, yn ogystal â gweithio'n greadigol er mwyn parhau i gyrraedd trigolion mor effeithiol ag oedd yn bosib.

Cynhaliwyd dau weithdy gyda 20 o bobl (yn cynnwys amrediad oedran a chefndir) er mwyn i'r trigolion eu hunain gyfrannu at y broses. Roedd y canfyddiadau, a'r awgrymiadau o'r gweithdy cyntaf yn cynnwys;

- bod diffyg hyder yn amlwg iawn (yn nhermau datblygiad personol a symud at waith), a diffyg gobaith yn gysylltiedig o ran amgylchiadau allanol (dim gwaith, llefydd yn cau)
- gwelir cyflogwyr yn fwy tebygol o fod eisiau "pethau ar bapur yn hytrach na people skills", ac elfen o ragfarn achos ei lleoliad (bod canran uchel o droseddau yn draddodiadol ar y stad, ac felly bod hyn yn effeithio pawb)
- bod bobl mwy tebyg o fod a diddordeb mewn gwaith "hands on", e.e. labro, gweithio mewn siop, gwaith gofal (a bod cyfathrebu / siarad â phobl yn bwysig)
- bod y math o gyrsiau sy'n cael eu cynnig (Pobol Peblig) fel technoleg gwybodaeth, datblygu CV's, ac eraill, yn ddefnyddiol
- mae'r ffordd i gyrraedd pobl yw 'ar y stryd' wyneb yn wyneb, cynnal gweithgareddau i dynnu pobl mewn (e.e 'car boot sale'…) ac yna siarad. Roedd rhai o'r grŵp eu hunain yn fodlon cenhadu. Yn ogystal dywedodd rhai y byddai Facebook, a'r wefan newydd (sy'n cael ei datblygu o fewn prosiect arall) yn ddefnyddiol
- roedd y Gymraeg yn cael ei ystyried yn fantais gan nifer wrth chwilio am waith, ond yn gyffredinol nid oedd ganddynt hyder yn eu gallu ieithyddol eu hunain
- awgrymwyd sefydlu bas data o sgiliau trigolion, a'i gydlynu a chyfleoedd swyddi / cyrsiau / cyfleodd busnes / ariannu posib

- er bod canfyddiad nad oedd cefnogaeth i bobl i drosi beth sy'n cael ei wneud yn answyddogol ar hyn o bryd (torri gwair, glanhau, gofal) i fusnes swyddogol, mae'n amlwg bod llawer o ddiddordeb mewn chwilio am ffyrdd o neud pres o ddiddordebau (fel cyfrifiaduron, colur / trin gwallt, gwnïo, ayb). (Datblygwyd y gwaith ymchwil ar fentergarwch fel ymateb I'r awgrym hwn.)

Yn yr ail weithdy trafodwyd ymhellach sut i gasglu gwybodaeth (o ran sgiliau a diddordebau gan gynnwys sgiliau iaith); mathau o waith a chyfleodd i fentro yn lleol; a'r nodweddion pwysig i gyflogwyr.

Yn sgîl gwaith yn y cyfnod cychwynnol a negeseuon a ddaeth i'r amlwg yng ngweithdy cyntaf a gynhaliwyd gyda thrigolion, sylweddolwyd arwyddocâd posib yr holl faes o annog mentro, "gwneud pres", cychwyn busnes. Felly comisiynwyd gwaith ymchwil a datblygu 'Mentergarwch ym Mheblig' - i fapio darpariaeth presennol, asesu anghenion, datblygu canllaw cefnogi a chynllunio gweithredu.

Mae ymchwilio i anghenion cyflogwyr o ran sgiliau Cymraeg yn nodedig o anodd. Bu sawl ymchwil 'o bell' (h.y. ar y ffôn neu electronaidd) fel 'Sgiliau Dyfodol Cymru' yn creu'r argraff bod y Gymraeg i raddau'n amherthnasol yng ngolwg cyflogwyr (er bod 'cyfathrebu' gyda'r pwysicaf o'r sgiliau). Ond ar y llaw arall roedd gwaith 'Gorwelion' Menter a Busnes, oedd yn casglu argraffiadau gyda chyflogwyr wyneb yn wyneb, ac o fewn cyd-destun anghenion sgiliau cyfansawdd, yn gyson yn dangos lefelau sylweddol o ran anghenion ieithyddol. Roedd gwaith diweddar gan gwmni Beaufort eto'n dangos yr un darlun cymysg - gyda dim ond 4% o gyflogwyr yn gweld y Gymraeg yn berthnasol ar yr olwg gyntaf, ond hynny'n neidio i 33% wedi gosod yr iaith o fewn cyd-destun sgiliau cyflogaeth (yn arbennig wrth ymwneud a chwsmeriaid).

Yn ddiweddar bu Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn "ystyried y dystiolaeth ynglŷn â'r galw am sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle. Beth yw anghenion sgiliau Cymraeg y cyflogwyr? Sut orau y gellir cyfarfod â'r anghenion hyn?"

Mae argymhellion yr adroddiad yn berthnasol iawn i'r Prosiect. Mae'r Crynodeb o'i adroddiad 'Polisïau Sgiliau a'r iaith Gymraeg' yn nodi

- " Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn sgil y gellir ei ddefnyddio yn y gweithle
- Mae gan gyflogwyr angen gwell dulliau o adnabod sgiliau ieithyddol yn gywir
- Dylid mabwysiadu dulliau priodol, sy'n gyson a'r rheiny a ddefnyddir i asesu anghenion sgiliau eraill, i fesur maint a natur y galw gan gyflogwyr am sgiliau Cymraeg
- Dylid gwneud hyn fesul sector a fesul ardal, yn rheolaidd
- Dylai holl Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiffinio a rhoi cyhoeddusrwydd i'r polisïau a'u dyheadau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, ynghyd â'r anghenion sgiliau sy'n deillio ohonynt, a'r hyfforddiant a'r polisïau recriwtio sydd eu hangen i'w cyflenwi.
- Dylid sefydlu Arsyllfa Sgiliau Cymraeg lle byddai'r wybodaeth fyddai'n deillio o hyn yn cael ei chasglu, ei dadansoddi ac yna ei dosbarthu i gynghorwyr gyrfa, darparwyr addysg a hyfforddiant, dysgwyr a rhieni
- Mewn addysg, ar bob lefel, dylai fod yna bwyslais uwch ar sicrhau rhuglder defnyddiadwy
- Dylid blaenoriaethu rhai sectorau a dylid creu a chefnogi llwybrau dysgu sy'n sicrhau hyfrydedd ieithyddol
- Dylai cynllunio addysgiadol ganolbwyntio ar sicrhau cyfleoedd ar gyfer dilyniant

darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol o flaenoriaeth

- Dylai cyflogwyr sy'n ceisio hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle gael eu cefnogi a dylid rhannu arfer da."

Mae nifer o sefydliadau yn cysylltu'n uniongyrchol gyda chyflogwyr o bob math - o ran yr agenda cyflogaeth. Fel rhan o'u dyletswyddau craidd mae Canolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru mewn cyswllt cyson gyda chyflogwyr (gyda staff penodol i wneud hynny). Yn ogystal mae ystod o ddarparwyr (gwasanaethau dan gytundeb) hefyd yn cysylltu â chyflogwyr, yn arbennig o ran lleoliad / profiad gwaith. Felly mae'r Prosiect wedi anelu i fagu perthynas gyda'r mwyaf perthnasol o'r sefydliadu hyn - er mwyn sicrhau'r cysylltiadau ehangaf bosib, ac i hau'r hadau am berthnasedd y Gymraeg yn eu gwaith gyda chyflogwyr. Felly y nodwyd, sefydlwyd perthynas â Phrosiect Môn Menai yn ogystal â gyda sefydliadau unigol. Rhaid nodi bod angen dyfalbarhad er mwyn sicrhau budd o'r cyswllt gyda chyflogwyr trwy gyfrwng y sefydliadau allweddol.

Cynhaliwyd un sesiwn drafod gyda grŵp bach o gyflogwyr. Roedd rhai o'r prif negeseuon a nodwyd yn cynnwys;

- Ac eithrio swyddi lle mae angen gwybodaeth benodol, mae cyflogwyr yn chwilio yn bennaf am sgiliau personol megis
  - agwedd bositif a chyfeillgar
  - gallu delio â phobl
  - bod yn brydlon a dibynadwy
- (yn hollol groes i feddylfryd y gweithdy trigolion a gredai mai "pethau ar bapur" sy'n cyfrif)
- Roedd barn amrywiol am y cyrff 'swyddogol' yn ymwneud a chyflogaeth, gyda tuedd i recriwtio yn anffurfiol trwy gyfrwng rhwydweithiau o bobl (yn arbennig ymysg cyflogwyr llai)
- Roedd galw am loywi iaith addas, hynny yw, bod angen sicrhau sgiliau ieithyddol perthnasol i wahanol fathau o waith, ac y byddai fframwaith gymhwysedd syml yn ddefnyddiol.

Un cyswllt allanol allweddol i'r prosiect yw'r un gyda gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar sgiliau iaith mewn cyflogaeth. Cynhaliwyd cyfarfod gan y Bwrdd gyda chyflogwyr yng Nghaernarfon. Roedd rhai negeseuon clir o'r cyfarfod

- bod galw am fforwm o gyflogwyr i drafod y Gymraeg / sgiliau
- bod diffyg hyder yn nodwedd gyffredinol
- a bod angen cynllunio o ran gweithlu dwyieithog, teclyn i asesu hyfedredd iaith a rhannu arfer da.

Nodwyd yn y cynllun gwreiddiol yr amcan o gysylltu â cyflogwyr ar Stad Ddiwydiannol Cibyn. Wedi'r gwaith cychwynnol o gysylltu â cyflogwyr sylweddolwyd nad oedd pwrpas gwneud hynny heb rheswm penodol – er enghraifft i holi am gyfle am leoliad. Wrth gynnal gweithgareddau fel cyrsiau yna fe aed ati i ddod o hyd i gyflogwyr oedd o fewn maes diddordeb yr unigolion oedd yn cymryd rhan. Fel mae'n digwydd, felly, dim ond dau gyflogwr ar Stad Cibyn oedd yn berthnasol yn y cyd-destun hwn.

## 5.3 Gweithgaredd

(Yn yr adran hon mae crynodeb o brofiad sawl person a fu â cyswllt dros amser â'r prosiect. Crynhowyd eu profiad gan Hywel Evans fel rhan o'r broses werthuso. Mae angen diolch yn fawr i'r unigolion am eu amser ac am fod mor agored am eu profiadau personol.)

**Cefnogaeth unigol / Brocera -** Yn ogystal â'r gweithgareddau penodol (a nodir isod) un elfen bwysig o waith y prosiect oedd cynnig cefnogaeth un-i-un dros gyfnod o amser i ddod â'r holl elfennau at ei gilydd (h.y. Brocera ymarferol). Gwnaed hyn yn gynyddol yn ystod ail hanner y prosiect.

**Mae angen i wasanaethau cefnogol gydnabod pwysigrwydd cynorthwyo pobl i ddelio â rhwystrau mewnol personol cyn y gallent symud ymlaen i waith. Mae darparu'r gefnogaeth yna yn effeithiol yn gallu golygu gosod y Gymraeg yn rhan annatod o'r gwasanaeth.**

Bu un person yn gweithio'n gyson ym maes plant a phobl ifainc cyn cychwyn magu teulu. Yn fuan wedi geni'r plentyn cyntaf bu farw ei phartner yn sydyn. Ymhen amser roedd yn awyddus i gychwyn ennill bywoliaeth mewn maes gwahanol - trwy gyfrwng menter newydd i werthu a defnyddio cynnyrch iechyd naturiol, a ddaeth yn gyfarwydd â hwy dros gyfnod o flynyddoedd.

Ond, er yr awydd i weithredu roedd yn anodd gwneud hynny - yn feddyliol ac yn emosiynol. "mi o'n i'n styc, a dim 'tools' tu fewn i fi allu symud mlaen". Fe brofodd rôl y Brocer Iaith, o fewn cyd-destun Tŷ Peblig (Cymunedau'n Gyntaf), yn greiddiol ac yn allweddol i'w galluogi hi i symud drwy'r rhwystrau hyn i fod yn barod i weithredu - "sŵn i ddim di gallu neud oni bai". O'i gymharu â'r cyngor a gafodd "o lefydd swyddogol" ("You've got no hope to do that…") roedd rôl gefnogol y Brocer yn ei galluogi i symud i'r sefyllfa o fod yn barod i weithio - gyda'r pwyslais gan y Brocer ar wrando, peidio barnu, bod a drws agored, a gallu cyfathrebu go iawn gyda phobl Peblig.

**Roedd y Gymraeg yn ganolog yn y broses - yn help ymarferol o ran siarad â phobl / cwsmeriaid, geirfa a "gosod pethau i lawr". Daeth i sylweddoli arwyddocâd y Gymraeg - ei fod yn sgil roedd wedi cymryd yn ganiataol cyn hynny. Ond yn ehangach, roedd yr elfennau ieithyddol hefyd yn rhan annatod o'r broses o symud ymlaen. "Mae'r Gymraeg 'di neud gwahaniaeth i bob dim - yn codi'r ysbryd i fyny, a'r hyder…".**

Erbyn hyn mae'n gweithio ar ei syniadau am y fenter newydd, a hefyd yn gweithio rhan amser mewn caffi mewn atyniad twristiaeth / etifeddiaeth yn yr ardal. Mae'n defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ei gwaith - gyda staff eraill ond yn arbennig gyda chwsmeriaid - sy'n aml yn dod o wledydd eraill dros y byd - gan ddefnyddio geiriau Cymraeg yn fwriadol wrth gyfarch a diolch, sydd yn arwain ar sgwrs ehangach am yr iaith.

Yn ogystal mae wedi dechrau magu diddordeb mewn ysgrifennu, yn sgîl y gwaith gyda'r Brocer, gan greu cerddi i ganeuon - gan gynnwys un a fu yng nghystadleuaeth Cân i Gymru. Mae hefyd erbyn hyn yn chwilio am gyfle i wirfoddoli i help bobl eraill - "Dwi'n blooming!".

Bu'r gefnogaeth unigol / brocera yma hefyd yn gallu dangos arwyddocâd integreiddio gyda gwaith ehangach – Cymunedau'n Gyntaf yn arbennig.

**Mae symud o fod ag ofn mynd allan o'r tŷ i fod mewn gwaith parhaol yn dipyn o siwrne.**

Dyma ddigwyddodd i un person a fu'n cael cefnogaeth y Brocer Iaith a'r gwasanaethau ehangach o fewn Tŷ Peblig (Cymunedau'n Gyntaf). Bu'r person yma yng nghlwm â magu teulu o bedwar o blant yn ifanc iawn, gyda'i phartner, ac yn gallu gwneud fawr ddim arall yn ystod y cyfnod. Yn sgîl hyn roedd prin yn cymdeithasu â neb arall, ac fe dyfodd yn fewnblyg ac yn swil tu hwnt. Roedd ei 'hunan-werth' yn brin iawn. Gydag anogaeth staff Tŷ Peblig, fe ddechreuodd fynychu sesiynau coginio o fewn y Tŷ, cyrsiau i fagu hunan-werth ac yna cynnig cefnogaeth i bobl hŷn. Bu sawl cam ymlaen ac yn ôl ar y cyfnod hwn o'r siwrne.

Ond wrth ddal ati, gyda chefnogaeth y Brocer, fe ddaeth i helpu yn y clwb ieuenctid ac yn y pendraw fe ddechreuodd fynychu cwrs coleg. Yn sgîl hyn fe ddarganfuwyd, am y tro cyntaf, ei bod â 'dyslexia'. Bu'n ddyfal yn ymdopi â hyn, ac fe ddaeth cyfle i wirfoddoli yn gofalu am bobl hŷn mewn cartre preswyl.**Trwy gydol yr amser bu'r Brocer yn cefnogi ac yn annog defnydd o'i sgiliau Cymraeg – yn arbennig wrth ddelio gydag eraill gan gynnwys bobl hŷn dan ei gofal wrth wirfoddoli a nes ymlaen wrth ddelio gyda cwsmeriaid mewn siop.** Roedd y twf graddol mewn hyder personol yn cydfynd â'r datblygiad mewn hyder ieithyddol.

Daeth cyfle i wneud cais am swydd dros dro i weithio mewn cangen unigol o gadwyn o siopau drwy Gymru a Lloegr. Er iddi holi'r i'r Brocer i gwblhau'r ffurflen gais drosti, fe wnaeth y Brocer ei pherswadio a'r chefnogi i wneud hynny ei hun. Fe deimlodd yn ychydig yn negyddol am hyn i gychwyn – "beth pe bawn i ddim yn cael y swydd achos y ffurflen…?". Fe gafodd gyfweliad, â'r cyflogwr yn mynegi gwerthfawrogiad ei bod wedi llwyddo i gwblhau'r cais ei hun. Fe gafodd gefnogaeth wrth baratoi am y cyfweliad ac er y gystadleuaeth helaeth am y swydd, fe fu'n llwyddiannus.

Mae'n gweithio ar 'tills' y siop – yn cyfarch cwsmeriaid. Mae'n defnyddio'i sgiliau iaith yn fwriadol gyda cwsmeriaid ac yn cael y cyfrifoldeb am negeseuon dwyieithog o ran cyhoeddiadau o fewn y siop. "Dw i 'di bod yn ferch, yn fam, yn bartner…ond 'dw i 'di ffeindio fy hunan rwan." Erbyn hyn fe gafodd gynnig gwaith parhaol, ac hefyd ei cymeradwyo i gymryd rôl ehangach i arwain tîm o staff. Bu pennaeth rhanbarthol y cadwyn siopau ar ymweliad â'r safle ac er bod ei shifft gwaith wedi gorffen, holwyd iddi aros i'w gyfarfod ac i ateb cwestiynau a cynnig sylwadau**. Bu rôl y Brocer yn allweddol – ar sail cyswllt un-i-un, yn benodol o ran agweddau ieithyddol o fewn proses cyflawn o annog, hwyluso a chefnogi ar hyd y daith.**

Er nad trefnu gweithgareddau fel y cyfryw oedd ffocws gwaith y prosiect, cychwynnwyd gweithredu treialu cynlluniau unigol:

**Er yn sialens, mae yn bosib i berson a fu mewn amgylchiadau anodd iawn i newid byd i fod mewn gwaith parhaol - gan ddefnyddio'r gwasanaethau cefnogol ac ieithyddol yn llawn.**

Wedi ei fagu yng Nghaernarfon bu'r person yma'n gweithio mewn amryw o lefydd yn y maes adeiladu, dros gyfnod o flynyddoedd. Roedd hanes o broblemau dibyniaeth ar alcohol yn y teulu. Bu'n brwydro â oblygiadau hyn ar adegau dros y blynyddoedd.

Ar un cyfnod hwnnw fe gafodd salwch difrifol ei hun. Wrth well fe ddaeth i gyswllt â Tŷ Peblig (Cymunedau'n Gyntaf) ac a'r Brocer Iaith**. Bu'r sesiynau ar ymwybyddiaeth iaith yn agoriad llygad iddo,** ac fe gafodd gefnogaeth ymarferol i ddatblygu ei allu i ddefnyddio cyfrifiadur a hynny i bwrpas chwilio am waith. "Mae gallu galw mewn a siarad mor bwysig…."

Yn sgîl cyfle ddaeth i'r golwg trwy Job Clyb Tŷ Peblig, fe gafodd waith am chwe mis gyda Tai Eryri. **Roedd y gwaith, fel warden ynni, yn golygu mynd o ddrws i ddrws yng Nghaernarfon yn cynnig cyngor ymarferol (nid yn gwerthu) ar arbed ynni. Yn naturiol roedd y gallu i siarad â phobl yn Gymraeg yn greiddiol i'r gwaith - byddai bod heb y sgil yna yn ei wneud yn amhosib tynnu sgwrs a delio gyda phobl. Cafodd gefnogaeth y Brocer i baratoi at y gwaith. Cafodd hefyd gyfle, mewn cyswllt â gwaith y Brocer, i fynd ar leoliad gwaith i Antur Waunfawr.** Gan fod ganddo berthynas sydd â phlentyn ag anghenion dysgu arbennig - ac mae yntau'n gofalu amdano weithiau, roedd y profiad yn Antur Waunfawr yn cadarnhau ei ddiddordeb yn y math yma o waith. Fe gododd cyfle yn yr Antur am swydd barhaol ac fe lwyddodd i sicrhau'r gwaith. Mae hefyd wedi bod yn gwirfoddoli yn Nhŷ Peblig - "Bydd Peblig ar goll heb y bobl yma a'r Brocer….".

**Iaith ar Waith** - cwrs peilot ar y cyd a Choleg Menai i godi hyder a sgiliau dwyieithog yng nghyd-destun y gweithle a cheisio am waith - sgiliau gofal cwsmer, llunio CV, sgiliau cyfweld a lleoliadau byr gyda chyflogwyr lleol er mwyn cael blas ar waith trwy gyfrwng y Gymraeg. Cofrestrodd wyth unigolyn i'r cwrs 10 wythnos. Cafwyd lleoliadau yn Cario Dan Dô Redline, y Galeri, Cwmni Da, Tesco ac Antur Waunfawr. Anelir i ddatblygu'r model ymhellach. O ran y lleoliadau yn Cario Dan Do Red Line, Y Galeri a Chwmni Da er enghraifft, cafwyd adborth positif iawn o'r ddwy ochr. Cynigwyd amrywiol brofiadau cyfathrebu yn y Gymraeg; yn llafar - wyneb yn wyneb ac ar y ffôn; ar ffurf e-byst – gan ddefnyddio rhaglenni Cysill a Cysgeir; a thrwy anfon testunau ffôn symudol. Nodwyd yr elwa o gymdeithasu ag ystod eang o wahanol fathau o Gymraeg: acenion a thafodieithoedd. Yn ogystal, cynigiwyd model rôl unigolyn yn wreiddiol o Peblig, a fu ar gwrs gloywi iaith ac sydd bellach â swydd gyfrifol mewn gweithle uniaith Gymraeg. Dywedodd y cyflogwyr y buasent yn fodlon cynnig lleoliadau eto gan iddynt weld gwerth hybu hyder y myfyrwyr yn eu mamiaith.

**Iaith Gwaith!** - datblygwyd cwrs newydd gan sicrhau achrediad ffurfiol gan Agored, yn adeiladu ar brofiad y prosiect, wedi ei deilwra'n fwy penodol i bobl sydd allan o waith. Treialwyd y cwrs gyda phedwar o bobl i gychwyn. Wrth baratoi'r adroddiad roedd lleoliadau gyda chyflogwyr yn cael eu darparu neu eu trefnu (Antur Waunfawr, Prifysgol Bangor, Cyngor Môn, a'r Urdd).

**Mae'n hawdd i rai sydd mewn gwaith yn gyson i anghofio effeithiau dinistriol personol bod allan o waith.**

Mae hanes un person yn dangos yn glir y gwahaniaeth mewn cyflwr o fod mewn neu allan o waith

"Dw i'n mynd yn bored pan dwi ddim yn gweithio. Pan dwi'n gweithio mae bywyd lot fawr yn well, a dw i'n cadw o drwbwl."

Wedi bod yn gweithio am sawl blwyddyn mewn amryw o feysydd – lladd-dai, ffatrïoedd, canolfannau dosbarthu ond yn bennaf ar safleoedd adeiladu – cafodd y person yma ei effeithio'n uniongyrchol gan newidiadau ac argyfyngau economaidd. Dros y blynyddoedd mwyaf diweddar mae'r cyfnodau gweithio i gyd wedi bod yn rhai dros dro – hynny yw yn gytundebau tymor byr, yn adlewyrchu natur cyflogaeth mewn sawl sector erbyn hyn.

Er bod y patrwm hwn yn un sy'n bod ers amser yn y maes adeiladu, mae'r gofyniadau technegol ychwanegol sy'n bodoli erbyn hyn yn creu mwy o ansicrwydd nag erioed – er enghraifft wrth i ofynion Iechyd a Diogelwch ddwysau mae angen 'cardiau' (tystysgrifau) newydd yn gyson, sydd i gyd â cost i'w sicrhau.

Mae'r person yma wedi bod, yn y bylchau rhwng cytundebau, yn cael ei hun mewn anawsterau gyda'r heddlu (o ran mân faterion yn unig) gan adlewyrchu effeithiau'r tensiwn sy'n llethu llawer sydd am weithio ond sy'n methu.

Fe ddaeth i'r casgliad bod angen chwilio am fath o waith sy'n debyg o gynnig cyfleoedd mwy parhaol – yn bennaf yn y sector diogelwch. Roedd un sialens yn ei wynebu – sef sut i sicrhau'r tystysgrif addas er mwyn cael gwaith yn y maes hwn. Does dim posib cael gwaith go iawn ym maes diogelwch heb y tystysgrif hwn. Mae sicrhau'r tystysgrif ei hun yn costio £450. Yr unig ffordd o allu sicrhau ei fod yn medru fforddio'r gost oedd ceisio am gyfle neu brofiad dros dro.

**Bu'r Brocer Iaith yn gweithio gyda'r person yma i gychwyn trwy gyfrwng y cwrs Iaith Gwaith. Cafodd gefnogaeth i'w alluogi ei hun i gwblhau CV Cymraeg yn ogystal ag un Saesneg, ac i ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer dogfennau a negeseuon dwyieithog. Bu ar leoliad tymor byr ble roedd angen gallu cyfathrebu yn Gymraeg â'r gweithwyr yn arbennig.**

**Ond nid gwneud gwaith ar elfennau Cymraeg er mwyn dim ond mynd trwy'r broses oedd hyn. Fe sylweddolodd bod gallu cyflwyno CV yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg yn cynnig mantais iddo o ran sicrhau gwaith – yn bonws oedd yn help i fod ar y blaen i eraill. "Os 'di cyflogwr yn gweld CV Saesneg yn unig a'r person yn dweud bod nw'n Gymraeg hefyd, a fi'n rhoi CV Cymraeg a Saesneg, fi sy'n mynd i'r peil 'Ie' am job."**

**Mae rôl Brocer Iaith yn cynnwys chwilio am gyfleoedd lleol i bobl gael blas ar waith go iawn. Gwelodd Tai Eryri a'r Brocer gyfle yn sgîl dyfodiad Eisteddfod yr Urdd i Glynllifon ger Caernarfon – arfer y dylid ei ddyblygu i bob Eisteddfod a digwyddiad.** Un cyfle a ddaeth i'r golwg oedd am waith diogelwch dros dro. Fe gafwyd cytundeb i gynnig cyfleoedd i bobl â'r cyfuniad priodol o sgiliau, gan gynnwys rhai ieithyddol addas, i geisio am y gwaith hwn.

Felly fe wnaeth y person hwn gais ac fe gafwyd cyfweliad. Bu'r Brocer yn cefnogi wrth baratoi am y cyfweliad. Bu'r cais yn un llwyddiannus – yn cynnig cyfle am waith am 10 wythnos. Bydd y gwaith hwn yn galluogi'r person hwn i gasglu digon o arian i dalu am sicrhau'r tystysgrif diogelwch – a fydd yn ei dro yn cynnig cyfle iddo geisio am waith fwy parhaol.

**Gwna fo dy hun** - sef cwrs cyfrwng Cymraeg ar y cyd gyda Choleg Harlech. Bwriad y cwrs oedd penodi digwyddiad cymunedol ym Mheblig a dilyn y camau i'w wireddu. Cofrestrodd deg unigolyn dros wyth sesiwn a bu 25 o bobl yn cymryd than yn y cyfnod olaf. Ar ôl

holi trigolion a chasglu'u dymuniadau, daethpwyd i'r penderfyniad mai Diwrnod o Hwyl fyddai'n ateb yr amrywiol ofynion. Cafwyd diwrnod hynod lwyddiannus gydag oddeutu 300 yn mynychu. Er nad oedd y cwrs yma'n benodol yn rhan o raglen waith y Brocer Iaith yn wreiddiol, yn sicr fe lwyddodd i godi'i phroffil o'r Gymraeg a'i galluogi i ymgyrraedd â mwy o drigolion, yn arbennig wrth lywio iaith gweithgareddau.

**Prosiect Digidol Peblig** - cynllun rhwng BT, Pobol Peblig a Choleg Menai er mwyn codi statws y Gymraeg o ran Technoleg Gwybodaeth a chodi hyder trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn. Datblygwyd safle we newydd yn sgil y cynllun, a cychwynnwyd ar gwrs blasu gyda 4 unigolyn.

**5 cam** - eto fel rhan o'r broses o ddysgu gwersi am y math o ddarpariaeth byddai'n gweithio i wahanol garfannau o bobl, treialwyd cryno gwrs o bum sesiwn (mewn cydweithrediad â swyddogion Cymunedau'n Gyntaf a Bwrdd yr Iaith Gymraeg). Ffocws y sesiynau oedd paratoi i chwilio am waith. Cofrestrodd pum unigolyn ac ar ddiwedd y cyfnod roedd gan bawb CV cyflawn Cymraeg a Saesneg. Mae dau eisoes mewn gwaith parhaol.

**Weithiau, i fynegi ffaith amlwg iawn, dod o hyd i waith yw'r sialens fwya'.**

Bu un person yn gweithio am flynyddoedd mewn cartre' preswyl i bobl hŷn - cyn i'w sefyllfa deuluol olygu bod rhaid iddi orffen gweithio i ofalu am ei phlant - "Di gorfod cymryd early retirement!".

Erbyn hyn mae'n awyddus iawn i gael gwaith - "Ma' bod heb waith yn boring iawn, a does byth dim pres…". Wedi bod allan o waith ers cyfnod hir mae'n fwy anodd cychwyn eto "y job di ffeindio'r gwaith…". **Wrth gychwyn yn Jobclyb Tŷ Peblig fe ddaeth i gysylltiad â rôl y Brocer Iaith - ac felly fe aeth ar gwrs Iaith Gwaith.**

Mae nawr yn teimlo'n barod i ail-afael mewn diweddaru'r cymwysterau a oedd ganddi yn y gorffennol, ac i gysylltu â pherchnogion cartrefi bobl hŷn yn yr ardal**. Daeth hefyd i werthfawrogi mor bwysig yw ei gallu i gyfathrebu yn Gymraeg â'r bobl hŷn hynny dan ei gofal - doedd erioed wedi meddwl am hynny yn flaenorol fel sgil allweddol.**

Aeth person arall i gyflwr dihyder iawn wedi bod allan o waith ers amser - wedi blynyddoedd o weithio i gwmni yn y sector fwyd. Aeth y gwaith yn raddol i gytundebau blwyddyn ar y tro ac yna lleihau i ddim**. Bu rôl y Brocer Iaith "yn help mawr "i gael paratoi CV's Cymraeg a Saesneg ac i fynd ar leoliadau gwaith dros dro. Mae'n teimlo'n fwy hyderus i wynebu'r broses o fynd i chwilio am waith. "Mae eisiau i fwy o bobl wybod am y Brocer…..".**

Ac i berson arall a oedd, yn ogystal â ategu bod bod heb waith "yn boring", â dau o feibion mewn coleg, roedd y pwysau i sicrhau gwaith yn fawr**. Trwy gyfrwng amryw o wasanaethau Tŷ Peblig a'r Brocer Iaith (yn gwrs, paratoi CV Cymraeg a Saesneg, lleoliad gwaith a Jobclyb) fe sicrhaodd waith glanhau a choginio mewn ysgol leol.**

**Plas Pawb** - Fel rhagarweiniad i **5 cam** (ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Genesis) datblygwyd a treialwyd cyfres o weithdai ar codi hyder cyffredinol a ieithyddol ac agweddau eraill i baratoi'r ffordd at geisio am waith.

**Lleoliadau** - yn ogystal â dod o hyd i leoliadau fel rhan o ddarpariaeth hyfforddi, bu'r prosiect yn ceisio sicrhau cyfleoedd yn gyffredinol i unigolion gael profiad mewn sefyllfaoedd gwaith.

**Daw anghenion am sgiliau Cymraeg i'r amlwg weithiau mewn meysydd annisgwyl.**

Bu un person yn gweithio ym maes gwasanaethau diogelwch am flynyddoedd. Ond yn ddiweddar bu allan o waith am dros flwyddyn. Trwy gyfrwng cysylltiadau gyda chwmni y bu'n gweithio iddo yn y gorffennol, fe ddaeth cyfle am waith dros dro - yn sgîl yr angen am wasanaethau diogelwch yn Eisteddfod yr Urdd yn yr ardal. Er i gwmni arall sicrhau'r contract cyfan am y gwaith, yn wreiddiol, roedd y diffyg i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn broblem iddyn nhw. Felly fe ddaeth y cwmni arall i'r adwy. Gan fod angen adnewyddu (bob tair mlynedd) y tystysgrif sy'n sicrhau'r gallu i wneud gwaith diogelwch, bydd y gwaith dros dro hyn yn gyfrwng i wneud hynny.

**Mae rhan o rôl Brocer Iaith yn golygu cysylltu â chyflogwyr mewn gwahanol ffyrdd er mwyn chwilio am gyfleodd i bobl gael pob math o brofiadau. Fe ddatblygodd Brocer Iaith Peblig gyswllt gyda gwasanaethau diogelwch Prifysgol Bangor - a fynegodd yr awydd i sicrhau mwy o staff oedd â sgiliau Cymraeg, sy'n bwysig iawn mewn sawl cyd-destun o fewn y coleg.**

Felly bu'r person yma yn cael cefnogaeth y Brocer i deilwra ei CV yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Mae'n anelu i sicrhau swydd barhaol - wedi i'r gwaith dros dro gyda'r Eisteddfod ddod i ben.

**Mentergarwch** - fel y nodwyd eisoes, yn sgîl un o'r grwpiau trafod a gynhaliwyd gyda thrigolion, daeth diddordeb i'r golwg mewn edrych i bosibiliadau i fentro / "gwneud pres".

Comisiynwyd Cwmni TJB Cymru Cyf i ddatblygu canllaw Mentro sy'n cynnig help efo datblygu syniadau a chynllunio gweithredu, asesu anghenion a mapio darpariaeth gefnogol leol. Yn ogystal, nodwyd pedwar enghraifft rôl - model o bob Peblig sy'n hunan cyflogedig llwyddiannus. Cafwyd lansiad creadigol i'r canllaw gydag Alun Siwgwr, er mwyn denu sylw. Cylchredwyd copi electroneg o'r canllaw gydag asiantaethau priodol ac unigolion a diddordeb, yn ogystal â gwefan Pobol Peblig. Cynhaliwyd cwrs arbrofol yn gweithio drwy'r canllaw gyda pedwar person yn mynychu.

Ond yn ychwanegol, fe gychwynnwyd trafodaeth (h.y. Tai Eryri) gyda Menter a Busnes, oedd a chytundeb i ddarparu gwasanaethau 'blasu' menter ac oedd yn ystyried datblygu darpariaeth benodol yng Nghaernarfon.

**Cyswllt a gweithgareddau eraill** - sylweddolwyd (wrth nodi awgrymiadau trigolion) nad oedd pawb yn mynd i fynychu digwyddiadau neu weithgareddau ffurfiol, fel cyrsiau hyfforddi. Er enghraifft, un datblygiad o fewn y Rhaglen Waith (yr Adran Waith a Phensiynau) oedd sefydlu Job Clyb gan Tŷ Peblig, a bu modd cydweithio gyda'r cynllun. Felly, o fewn yr adnoddau amser oedd ar gael, gwelwyd bod modd cyplysu gwaith y Brocer gyda diddordebau neu brosiectau eraill.

**Weithiau mae rôl Brocer Iaith yn un sy'n cynnig elfen ychwanegol allweddol i brosiect ehangach.**

Mae person sy'n arwain un datblygiad yn ardal Peblig yn dod yn wreiddiol o gefndir di Gymraeg. Am resymau hanesyddol bu'r teulu y magwyd iddo'n crwydro rhannau o Gymru a Lloegr – er mae'r cyfnod yn ardal Caernarfon a olygodd iddo ystyried ei hun yn Gymro yn fwy na dim byd arall. Bu ef a'i frodyr am gyfnodau mewn cartrefi plant yng Nghanolbarth Lloegr. Cafodd drafferthion o ran alcohol a chyffuriau, a gyda'r heddlu.Yn y pendraw penderfynodd bod torri'r cylch dieflig hwn yn dibynnu arno'n symud nôl i Gymru ac i Gaernarfon yn benodol.

Bu'n cynnal ei hun mewn sawl ffordd, gan gynnwys trwy gyfrwng gwasanaeth tacsis ac am gyfnod yn rhedeg tafarn. Er i'r dafarn gau yn y pendraw yn sgîl datblygiadau ehangach yng Nghaernarfon, roedd y profiad a'r cysylltiadau a grëwyd yn allweddol yn y dyfodol.

Fe ddaeth yn ymwybodol yn gynyddol bod llawer o bobl ifanc yn ardal Peblig mewn peryg o syrthio i'r un trap a wnaeth ef pan oedd yn ifanc – o ran alcohol a chyffuriau. Felly bu'n dechrau chwilio am ffyrdd o ddefnyddio ei brofiad ei hun i gefnogi bobl ifanc i osgoi'r sefyllfaoedd hyn – mewn mân ffyrdd i ddechrau (helpu i lenwi ffurflenni); cychwn gwirfoddoli yn Tŷ Peblig (Cymunedau'n Gyntaf); a helpu i drefnu digwyddiadau fel nosweithiau tân gwyllt i'r gymuned.

Gan bod ganddo ddiddordeb mewn bwyd a coginio, a profiad o drefnu trelar bwyd yn y nosweithiau tân gwyllt a oedd yn tynnu bobl ifanc mewn i wirfoddoli, fe ddechreuodd chwilio am gyfle i gyfuno cynnig profiad a datblygu sgiliau bobl ifanc gyda menter gymdeithasol i ddarparu gwasanaethau arlwyo teithiol. Daeth cyfle i ddefnyddio trelar bwyd a fu yn y gorffennol yn darparu gwasanaethau arlwyo ar gyfer cwmnïau teledu. Ar yr un pryd, magwyd syniad i baratoi cyfres deledu ar y profiad o ddatblygu a gweithredu'r cynllun.

Datblygwyd y cynllun ehangach gyda chefnogaeth sefydliad yn arbenigo mewn mentrau o'r fath (Cwmni Sylfaen)**. Bu rôl y Brocer Iaith hefyd yn allweddol mewn sawl ffordd, wrth gefnogi'r person i fagu sgiliau ieithyddol – paratoi posteri, bwydlenni, yn ogystal â'r gallu i baratoi deunydd hyrwyddo ehangach ac i e-bostio gan ddefnyddio potensial cyfrifiadur gymaint â phosib. Fel canlyniad i'r gwaith cychwynnol hwn fe ddatblygodd yr hyder ieithyddol i symud y cynllun ymlaen (ac ymhellach i fod yn rhan o rhaglenni teledu Cymraeg eraill). "Mae fel byd newydd 'di agor…"**

**Felly mae'r cyswllt â'r Brocer Iaith yn parhau wrth i'r cynllun symud ymlaen ymhellach. Tybia'r person bod rôl y Brocer yn allweddol dros y tymor hir, gan bod angen y gefnogaeth dros amser Wrth weithredu'r gwasanaeth arlwyo mae pwyslais mawr ar y Gymraeg – o ran arwyddion a delio â cwsmeriaid – "Cymraeg gynta bob amser". O fewn y gwaith o hyfforddi a cynnig y profiad ymarferol, mae'r bobl ifanc yn cael eu annog i weithio'n Gymraeg ("Cymraeg naturiol sy'n bwysig, nid Cymraeg posh."). nid dim ond ar y dechrau. Hefyd mae'n fanteisiol cyplysu'r Gymraeg a gwaith y Brocer yn naturiol fel rhan o weithgaredd arall – mewn meysydd fel bwyd, cerddoriaeth, actio, a gwaith llaw o bob math. "'Di pawb ddim yn licio cyrsia mewn dosbarth – so ma neud o'n rhan o rywbeth arall ma boblisio neud yn siwtio rhai yn well."**

**Ymwybyddiaeth iaith** - fe nodwyd hefyd yr angen am ddarpariaeth i gynyddu ymwybyddiaeth iaith a fyddai'n addas i bobl yn chwilio am waith ac fe ddatblygwyd deunydd a chyflwyniadau newydd ac fe'u defnyddiwyd .

**Darpariaeth sgiliau sylfaenol** - yn sgîl profiad cynnar gweithredu'r prosiect, yn ogystal â tystiolaeth o arolygon trigolion, fe nodwyd bwlch o ran darpariaeth sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd yn y Gymraeg a fyddai'n berthnasol i oedolion. Felly fe aethpwyd ati i ddatblygu darpariaeth a fyddai'n llenwi'r bwlch gan greu defnyddiau a chyflwyniadau addas. Aethpwyd ati i achredu'r cwrs newydd hwn gydag Agoriad a Coleg Menai.

**Wythnos Addysg Oedolion** – enghraifft arall o gyplysu gweithgaredd gyda rhaglenni ehangach oedd y prosiect a weithredwyd yn ystod Wythnos Addysg Oedolion, sef cyfres o weithdai dros dri diwrnod gyda 18 o bobl a ddatblygodd murlun hanes yr iaith Gymraeg ar gyfer defnydd parhaol neuadd lleol – eto fel bachun i gynyddu ymwybyddiaeth ieithyddol.

## 5.4 Gwasanaethau cefnogi

Yn ogystal â'r cydweithio agos gyda gwasanaethau eraill (yn ychwanegol i Cymunedau'n Gyntaf) mae'n werth nodi'r berthynas sydd yn datblygu gyda'r cyrff sy'n brif ddarparwyr gwasanaethau cyflogaeth yn yr ardal (Agoriad a Scout Enterprise), o ran y Rhaglen Waith (prif raglen gefnogaeth yr Adran Waith a Phensiynau). Daeth cyswllt cyntaf wrth hyrwyddo'r prosiect - yn arbennig Iaith Gwaith! Fel canlyniad i'r cyswllt cychwynnol fe ddatblygwyd y berthynas, yn arbennig gyda Scout Entperprises. Bu'r Brocer yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith gyda'r staff - "Bu'r Brocer yn gymorth mawr i ni…". Roedd un cleient gan Scout Enterprises oedd am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg - ac fe brofodd Iaith Gwaith! yn fendith fawr. Mae'r corff yn gweld yn gyson yr angen am ddarpariaeth sgiliau sylfaenol Cymraeg - yn arbennig o ran ysgrifennu. Byddai modd rhagweld cyd-weithio pellach yn y dyfodol pe bai'r cyfle'n codi.

**I rai sy'n fwy cyfforddus yn y Gymraeg, mae gwasanaeth Brocer iaith yn angenrheidiol.**

Roedd un person - a fu'n mynychu cwrs Iaith Gwaith a gweithgaredd cysylltiol yn byw dipyn o ffordd o Gaernarfon - ar Ynys Môn. Bu allan o waith erstalwm. Pan oedd yn gweithio gwaith tu allan - garddio, tirlunio, 'gamekeeper', oedd ei gryfder.

**Er iddo fod ar gyrsiau i'w gwella, roedd ei sgiliau Saesneg yn wan. Felly roedd cymorth cyfrwng Cymraeg yn angenrheidiol iddo. Cafodd ei dderbyn ar sawl darpariaeth, nad oedd yn Gymraeg. Dim ond ar ddamwain y daeth ar draws taflen yn sôn am wasanaeth Brocer Iaith Peblig. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn addas iawn iddo - "Dw i'n gallu mynd trwy pethau fan hyn yn yr iaith dwi isio."** Yn ogystal mae modd siarad a rhywun yn uniongyrchol. Mae ei brofiad gyda'r gyfundrefn gyflogaeth yn un negyddol - o ran agweddau negyddol ac o ran gweithredu, er enghraifft, wrth geisio siarad â rhywun (sydd ddim yn bosib neb wneud apwyntiad trwy gyfrwng rhif ffôn canolog).

**Mae wedi gweithio, trwy gyfrwng Iaith Gwaith, ar ei CV, ac yn anelu yn ogystal at gael lleoliad gwaith awyr agored yn lleol iddo.**

## 5.5 Crynhoi'r profiad

Mae gwaith y prosiect yn arbrofol. Nid oedd modd asesu'n ystyrlon y sefyllfa agweddol / weithredol penodol cyn cychwyn y gwaith (h.y. gosod meincnod). Nodwyd eisoes y gwaith ymchwil cymunedol a gwblhawyd gan Gwmni Sylfaen a'r adolygiad ar fentergarwch gan TJB Cymru. Fe ddilynwyd trywydd sampl o ddeg o'r bobl a gafodd gyswllt a'r prosiect - fel y nodwyd yn yr adran hon o'r adroddiad - er mwyn deall beth oedd yn newid fel canlyniad i'r gwaith.

Yn ogystal fe gwblhawyd 36 o bobl holiadur syml o ran eu hagweddau cyffredinol, erbyn cyfnod paratoi'r adroddiad hwn. I ryw raddau nid canlyniadau holi sy'n bwysig ond asesu os oes modd, yn sgîl y gwaith hwn, ddechrau siapio ffurf o adolygu agweddau a gweithgaredd a fydd yn addas ac yn ystyrlon i'r math hwn o waith (fel rhan o'r Model) i'r dyfodol - gweler Casgliadau isod.

Ond o ran cywreinrwydd, gan gymryd cyfyngiadau niferoedd a holwyd i ystyriaeth, mae'r ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel cymorth i gael gwaith i weld yn uchel - dros 83% yn "lot o help" a 17% yn "ychydig". Mae hyn yn debyg iawn i ganfyddiadau Cwmni Sylfaen - er eto gyda niferoedd bychan - o 84% "lot o help" a 16% "ychydig". "Wrth chwilio am waith" a "Wrth ddelio 'fo pobl" mae'r Gymraeg i'w weld o gymorth, gyda 50% yn teimlo'n lled hyderus ("ocê") a 39% yn hyderus o ran perthnasedd i'w sefyllfa eu hunain.

O ran beth fyddai'n fwyaf defnyddiol i fanteisio ar hyn (gyda modd i ddewis sawl opsiwn) roedd 50% yn nodi help i ysgrifennu'n Gymraeg, o gwmpas 30% cwrs gwella sgiliau'n gyffredinol, sicrhau profiad gwaith mewn lleoliad Cymraeg ac i baratoi CV Cymraeg. Mae'r ymwybyddiaeth o'r angen i gryfhau sgiliau ysgrifenedig yn adlewyrchu anghenion a nodwyd gan rhai asiantaethau gweithredol, yn ogystal ag yn tanlinellu arwyddocâd y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect.

# 6. Gwerthuso

## 6.1 Nodau ac Amcanion

**yn y cynllun gwreiddiol (gan gofio bod Cyraeddiadau ehangach wedi eu sicrhau fel canlyniad i weithgaredd nad oedd yn bosib ei rhagweld cyn cychwyn y prosiect):**

| Nodau | Amcanion | Cyraeddiadau |
|---|---|---|
| Ymchwilio a threialu dulliau newydd o gynllunio iaith sy'n paru sgiliau iaith trigolion Peblig gydag anghenion iaith cyflogwyr lleol | ▪ Penodi Brocer Iaith<br>▪ Datblygu rhaglen waith<br>▪ Gweithio mewn partneriaeth â Cymunedau'n Gyntaf, Canolfan Byd Gwaith, Cyngor Gwynedd, Gyrfa Cymru… | ▪ Cwblhawyd<br>▪ Cwblhawyd<br>▪ Partneriaeth agos gyda Cymunedau'n Gyntaf; rhywfaint o gydweithio â Chanolfan Byd Gwaith a Chyngor Gwynedd, ond yn llai gyda Gyrfa Cymru am resymau tu hwnt i'r prosiect ei hun. |
| Datblygu rhaglen hyfforddiant a chefnogaeth addas gan gydweithio â rhaglenni sy'n bodoli eisoes ar gyfer pobl ddi-waith yr ardal | ▪ Asesu gwybodaeth gyfoes am y farchnad lafur berthnasol i Peblig ac ymchwilio i ganrannau bobl o Peblig yn gweithio ar Stad Ddiwydiannol Cibyn a gyda phrif gyflogwyr Caernarfon. | ▪ Ni chwblhawyd ymchwil ffurfiol gan fod cyswllt uniongyrchol gyda chyflogwyr unigol yn dangos yr amrywiaeth gwybodaeth berthnasol ar y farchnad lafar leol. Gweithiwyd gyda dau gyflogwr ar Stad Cibyn (Cario Red Line, Antur Waunfawr) fel y nodwyd eisoes.<br>▪ Casglwyd fframweithiau sgiliau ieithyddol a oedd gan brif gyflogwyr |
| | ▪ Gweithio gyda phrif gyflogwyr i ddiffinio'r cymwyseddau a galluoedd ieithyddol sydd eu hangen<br>▪ Gweithio gyda phartneriaid (yn arbennig Canolfan Iaith Gogledd Cymru) i fapio darpariaeth hyfforddi iaith Gymraeg a'i addasrwydd. Brocera darpariaeth newydd. Pan yn addas datblygu cymwysterau OCN mewn sgiliau iaith<br>▪ Gweithio gyda thîm Cymunedau'n Gyntaf I godi proffil trigolion Peblig a ddatblygodd busnesau eu hunain… | ▪ Gweithiwyd gyda Sgiliaith, Coleg Menai (llai gyda Chanolfan Iaith Gogledd Cymru gan fod eu ffocws ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith). Datblygwyd darpariaeth newydd gan sicrhau achrediad Sicrhawyd cymwysterau gan 4 o bobl.<br>▪ Cwblhawyd fel rhan o'r gwaith ar fentergarwch |
| Cydweithio â thrigolion Peblig i asesu effeithiolrwydd y gwasanaethau cyflogaeth a dderbyniant, a pha gefnogaeth a roddir i'r Gymraeg o fewn y gwasanaethau hynny | ▪ Gweithio gyda thrigolion anweithgar i ddatblygu proses asesu i fesur cymhwysedd a hyder yn defnyddio'r Gymraeg. Peilota ac integreiddio gyda phrosesau tracio gwirfoddolwyr Cymunedau'n Gyntaf | ▪ Ni ddatblygwyd proses ffurfiol - ond trwy gyfrwng gweithgaredd hyfforddi ymarferol a darpariaeth ymwybyddiaeth iaith a grëwyd, fe ddaethpwyd i ddeall mwy am gymwyseddau ag agweddau allweddol. Cychwynnwyd ar broses i adnabod ffyrdd perthnasol i asesu hyder ieithyddol<br>▪ Roedd lleoliadau yn rhan greiddiol o raglenni hyfforddi. |
| | ▪ Trefnu lleoliadau 'blasu' i godi hyder o fewn sefyllfaoedd gwaith Cymraeg e mwyn i drigolion oresgyn ofnau a rhagfarnau am eu gallu | |
| ▪ Datblygu methodoleg sy'n hyrwyddo manteision economaidd yr iaith Gymraeg yn y gweithle, a ellir ei defnyddio mewn lleoliadau eraill ar ddiwedd y prosiect | ▪ Trefnu cyfarfodydd gyda staff rheng flaen mewn asiantaethau perthnasol a sicrhau gweithredu cydlynus trwy gydol yr amser | ▪ Yn ogystal â chyfarfodydd cychwynnol, gwnaed cyflwyniad i Brosiect Môn Menai oedd yn cwmpasu'r holl ystod o asiantaethau perthnasol<br>▪ Bu sawl ymateb yn holi am gymorth ar faterion unigol, ar alw yr asiantaethau, a chwblhawyd sesiynau ymwybyddiaeth iaith i staff rheng flaen mewn un asiantaeth |

## 6.2 Gweithgaredd (Cynllun Gwreiddiol)

| | |
|---|---|
| Nifer o drigolion a gefnogwyd dros gyfnod – 46<br>Nifer o drigolion a fynychodd ddigwyddiadau - 398 | 444 |
| Nifer o gynlluniau gweithredu unigol | 17 |
| Nifer o leoliadau tymor byr | 15 |
| Prosiect Ymchwil Cymunedol | Cwblhawyd |
| Adroddiad terfynol | Cwblhawyd |

## 6.3 Gweithgaredd / canlyniadau ehangach

**Mae peryg mawr i roi sylw yn unig i 'ganlyniadau' meintiol** - yn arbennig o ran cynllun sydd yn bod er mwyn arbrofi, dysgu a datblygu prosesau sydd am wneud gwahaniaeth o ddifri yn y tymor hir. Cyn cychwyn y fath gynllun 'dyw hi ddim yn bosib, yn dechnegol, i osod targedau meintiol ystyrlon - ac ni wnaed hynny yn yr achos hwn.

**Yn naturiol mae rhai canlyniadau yn ymddangos nad oeddent wedi eu hadnabod yn y cynllun gwreiddiol,** er enghraifft:

- datblygu ac achredu darpariaeth newydd sgiliau sylfaenol llythrennedd i'r agenda penodol hwn (a'r holl ddeunyddiau perthnasol):
- creu techneg / pecyn newydd Canllaw Menter a cysylltu â gweithredwyr penodol yn y maes, gyda'r potensial o arwain at drywydd newydd sbon - eto na ragwelwyd cyn cychwyn;
- creu adnoddau newydd o ran paratoi CV yn Gymraeg (ar wahanol lefelau) ynghyd â nodi gwerth y Gymraeg fel sgil;
- teilwra darpariaeth ymwybyddiaeth iaith i'r cynulleidfaoedd hyn (yn drigolion ac yn gyrff darparu gwasanaethau cyflogaeth).

**Yn ogystal mae 'na ganlyniadau yn ymddangos sydd yn fwy ansoddol - yn arbennig wrth weithio'n unigol gyda thrigolion dros amser** (gweler y straeon personol yn adran 5).

## 6.4 Canlyniadau (Cynllun Gwreiddiol)

| | |
|---|---|
| Cynnydd o rai hyder yng ngallu trigolion i ddefnyddio eu Cymraeg | Cynnydd clir o ran y trigolion penodol a gefnogwyd o ran hyder a gallu i ddefnyddio'r Gymraeg |
| Cynnydd mewn ymwybyddiaeth bod y Gymraeg yn ased mewn cyflogaeth | Nodwyd lefelau uchel o ymwybyddiaeth mewn 2 arolwg syml. Ond angen datblygu ymhellach techneg ymarferol i asesu newid (yn ystyrlon) |
| Mwy o bobl yn derbyn cefnogaeth wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwaith | Roedd y rhai a gefnogwyd i gyd yn 'ychwanegol' (h.y. mwy o bobl). Nid oedd sail i osod targed meintiol. |
| Gwell ymgysylltu a chydweithio ar gefnogaeth cyflogaeth rhwng Cymunedau'n Gyntaf ac asiantaethau rheng flaen | Bu cynnydd o ran ymwybyddiaeth asiantaethau amrywiol o ran y Gymraeg ac o ran gweithredu i nifer bychan o ddarparwyr. Gan fod y prosiect wedi ei wreiddio o fewn Cymunedau'n Gyntaf, fe ddatblygodd yr ymgysylltu yn sgîl hyn. |
| Datblygiad model wedi ei brofi y delid ei drosglwyddo | Gweler adran 8. |

# 7. Casgliadau a Gwersi

## 7.1 Cyffredinol

**Mae profiad cychwynnol y prosiect wedi dangos, drwy'r cyfuniad o weithgaredd a chefnogaeth un-i-un, bod modd defnyddio dimensiwn sgiliau ieithyddol fel rhan bwysig o'r broses o gefnogi bobl i symud tuag at waith.** Bydd angen cyfnod hirach i ddilyn trywydd yr unigolion a gefnogwyd dros amser ac i adeiladu ymhellach ar ddysgu o'r gwaith cychwynnol hwn.

**Mae'n angenrheidiol i waith broceriaeth iaith gael ei wreiddio i gyd-destun a gweithgaredd adfywio cymunedol, economaidd a ieithyddol.** Rhaid gochel rhag gosod elfennau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg mewn bocs ar wahân. Adlewyrcha hyn y gydnabyddiaeth gyffredinol bod angen cyd gysylltu agweddau ieithyddol a rhai economaidd a chymdeithasol. Gall y cyd-destun hwn bod o fewn Cymunedau'n Gyntaf neu fenter / sefydliad arall sy'n gweithredu yn y meysydd hyn, er enghraifft mentrau iaith perthnasol, cynlluniau eraill o fewn rhaglenni adfywio a rhaglenni datblygu gwledig.

Er bod peryg mewn defnyddio cyd-destun cyfoes fel rheswm dros beidio gwneud pethau, doedd dim amheuaeth bod yr hinsawdd economaidd yn effeithio ar hyder cyflogwyr a

thrigolion yn ystod cyfnod y prosiect. Yn ardal Caernarfon yn benodol fe fydd newidiadau o fewn y sector gyhoeddus yn sicr o gael effaith negyddol pellach ar gyflogaeth, yn anuniongyrchol yn ogystal ag yn uniongyrchol. Serch hynny, **mae'r cysylltiad rhwng anweithgarwch ag ardaloedd sydd â nodweddion difreintiedig yn un sy'n amlwg beth bynnag yw cyflwr yr economi. Felly tra bod angen cofio'r hinsawdd waith leol, mae'r angen am y math hwn o brosiect yn dal yn ddilys.**

Negeseuon cymysg sy'n ymddangos wrth ystyried ymateb i faterion iaith. Yn arwynebol, gan fod canran mor uchel o drigolion Peblig yn gallu siarad Cymraeg, does dim 'problem ieithyddol'. **Yn wir mae'r lefelau o ymwybyddiaeth am berthnasedd y Gymraeg o ran dod o hyd i waith yn ymddangos yn uchel. Ond mae'r hyder yn eu sgiliau ieithyddol eu hunain yn isel iawn.** Mewn termau byddai rhai'n ystyried yn hen ffasiwn, mae'r dimensiwn o gefndir / dosbarth yn un mae'n rhaid ei gofio wrth feddwl am faterion ieithyddol. Does dim modd gorbwyso'r ffactor hwn yng nghyd-destun y prosiect. Mae'n hawdd anghofio bod iaith yn llawer mwy na dim ond geiriau. Er bod arwyddion clir bod balchder mewn Cymreictod, mae cymhlethdodau ynglŷn ag agweddau at y Gymraeg; teimlad o 'Cymraeg posh' a 'Cymraeg ni sy ddim digon da'. **Proses tymor hir yw newid agweddau ieithyddol/ cymdeithasol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn, a'r diffyg hyder sy'n aml ynghlwm â'r rhain.**

Mae prosiectau sy'n anelu i arbrofi i ddatblygu mathau newydd o weithgaredd yn amlwg yn cymryd amser i greu momentwm a chanlyniadau cynaliadwy (h.y. nid rhai dros dro sy'n diflannu'n sydyn). Nid yw creu a rhannu dealltwriaeth am fath newydd o waith yn hawdd. Wrth ystyried profiad rhai o'r trigolion a gafodd gyswllt â'r prosiect, mae'n glir bod budd o'r gwaith yn dechrau ymddangos - mewn ffyrdd y gellid eu rhannu - er mwyn creu'r momentwm naturiol yna sydd ei angen. Ond nid yw'r gwersi i gyd wedi eu dysgu o bell ffordd. **Mae angen cyfnod hirach er mwyn manteisio i'r eithaf ar y profiad rhagarweiniol hwn - ac osgoi gwastraffu'r buddsoddiad gwreiddiol.**

Mae profiad y prosiect yn dangos bod sawl syniad a thrywydd newydd yn gallu dod i'r golwg heb eu cynllunio e.e. sut i gasglu a defnyddio yn rhagweithiol sgiliau a diddordebau trigolion; sut i ddefnyddio diddordebau bobl fel man cychwyn; sut i fanteisio ar gyfleodd masnachol penodol o ran y Gymraeg. **Ond o fewn cyfyngiad adnoddau amser, roedd yn amhosib dilyn pob trywydd yn drwyadl.**

## 7.2 Trigolion

**Rhaid ymgysylltu'n ystyrlon â thrigolion er mwyn sicrhau perchnogaeth o'r agenda a'r gweithgareddau hyn.** Dylid gochel rhag 'atebion' sydyn a gweithgaredd sydd wedi eu 'taflu at' ('done to') bobl o fewn cymunedau, gan nad yw'r canlyniadau'n gynaliadwy. Yn sgîl datblygu perchnogaeth mae modd deall anghenion yn ystyrlon gan sicrhau budd go iawn.

Gall y byd allanol osod llawer o drigolion Peblig mewn un bocs - sef pobl sydd ddim am weithio. Tra byddai'n naïf i ddweud bod hyn o bosib yn wir am rai, **mae profiad y prosiect yn dangos yn glir bod awydd i symud at waith ymysg llawer, a bod modd, trwy gamau bychain, hybu'r daith honno.**

Yn sgîl gwaith y Brocer Iaith, fe ddaeth angen ehangach i'r golwg, sef am hybu sgiliau sylfaenol. **Er mwyn arfogi llawer o drigolion i symud mlaen a gwella'u sefyllfa, mae angen sylweddol am ddarpariaeth addas o ran sgiliau sylfaenol ieithyddol / Cymraeg sydd wedi ei deilwra i'r sefyllfaoedd cymdeithasol a ieithyddol sy'n amlwg yn yr**

**ardaloedd perthnasol. Fe ddatblygwyd deunyddiau i'r pwrpas gan y prosiect.** Dylai'r ddarpariaeth hyn fod yn cynnwys yr holl ystod o elfennau fydd angen – h.y. mae angen mwy na cwrs (profiadau ymarferol amrywiol a cyfleoedd i weithredu'n ymarferol).

**Mae'n dechrau dod yn amlwg bod modd denu rhai pobl i'r gweithgaredd yn anuniongyrchol - trwy gychwyn gyda'i diddordebau hwy eu hunain.** Er ei fod yn ddyddiau cynnar i raddau, mae syniadau amrywiol am fannau cychwyn eraill yn dod i'r golwg.

**Sylweddolwyd, wrth weithredu'r prosiect, bod angen targedi rhai carfannau unigol – yn arbennig pan mae newidiadau yn effeithio ar y grwpiau hyn**. Mae newidiadau cyfoes yn y gyfundrefn budd-daliadau yn effeithio rhieni ifanc yn benodol. Felly fe gynlluniwyd i fynd ati i archwilio ffyrdd o dargedi mamau ifanc o ran datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth chwilio am waith. Gobeithir gweithredu'r cynlluniau newydd hyn yn y cyfnod nesaf.

## 7.3 Rôl borcera Iaith

**O ran rôl brocera mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng**
- **gallu gweithio trwy gyfrwng asiantaethau a sefydliadau eraill**
- **ond hefyd gallu llenwi'r bylchau o ran gweithredu yn uniongyrchol.**

**Daeth yn amlwg bod yr elfen sylfaenol o weithio gydag unigolion, a hynny dros amser, yn hollol greiddiol i rôl brocera effeithiol.**

**Mae rôl broceriaeth yn golygu cydweithio â chyrff a chynlluniau eraill. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu gweithio gyda nifer bychan o'r cyrff hynny sydd ag anghenion perthnasol i'w diwallu ac sy'n agored i gyd-weithio.** Mewn byd perffaith byddai modd i'r prosiect weithredu'n rhwydd trwy gyfrwng yr amrywiol gyrff sy'n weithgaredd ym meysydd cyflogaeth, hyfforddiant, menter ac iaith. Ond mae'r cyd-destun ehangach o ran cysylltiadau, o ran pwysau ar gyrff unigol i sicrhau allbynnau, ac o ran cystadleuaeth (am gytundebau, cleientiaid a chyswllt â chyflogwyr) yn gallu rhwystro gwireddu hyn. Wrth weithredu'r prosiect mae modd gweld potensial pellach i gydweithio'n agosach gyda chyrff unigol, e.e. corff sy'n darparu gwasanaethau cyflogaeth prif ffrwd ac un sy'n gallu gweithredu ym maes mentergarwch.

**Yn benodol o ran cyrff sy'n darparu gwasanaethau i leihau anweithgarwch / cynyddu cyflogaeth, mae'r prosiect wedi dangos bod modd cydweithio o ran elfennau ieithyddol - cynyddu ymwybyddiaeth staff, ymateb i ymholiadau a darparu gwasanaeth ieithyddol addas yn uniongyrchol pan nad yw hynny'n bosib i'r corff unigol. Ond mae dipyn o ffordd i fynd cyn y gellid sôn am brif-ffrydio go iawn.**

Wrth ddyblygu'r gwaith hwn mewn ardaloedd eraill dangosodd y prosiect bod angen
- proses fwriadol o gynyddu ymwybyddiaeth o berthnasedd y Gymraeg
- adnabod y cyrff hynny sy'n gweld y perthnasedd ac sydd am weithredu
- peidio gwario amser yn ceisio cydweithio â cyrff nad yw'n ymddangos bod ganddynt ddiddordeb go iawn.

## 7.4 Cyflogwyr

O ran y cyswllt cyffredinol a chyflogwyr, fe ddaeth yn amlwg bod llawer o sefydliadau ac asiantaethau yn eu targedi am bob math o resymau. Er bod gan rhai sefydliadau prif ffrwd staff sy'n benodol mewn cyswllt gyda chyflogwyr, ni lwyddwyd hyd yma, am amrywiol resymau, i ddatblygu ffyrdd o gyd-weithio gyda hwy. Er y bu rhywfaint o gyswllt gyda Chanolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru, mae dal angen chwilio am ffyrdd i adnabod budd cyffredinol o weithio'n agosach**. Felly, er bod rhywfaint o genhadu cyffredinol gyda chyflogwyr yn digwydd, fe brofodd yn fwy buddiol i gysylltu â hwy yn unigol i bwrpas penodol - yn arbennig o ran lleoliadau tymor byr.**

Er yr amrywiaeth mawr o ran anghenion a chyfundrefnau cyflogwyr - o rhai mawr sector gyhoeddus ar hyd y sbectrwm i gwmnïau bychain unigol - **mae'n amlwg y byddai gosod sgiliau Cymraeg o fewn anghenion sgiliau swyddi (o fewn fframwaith lefelau) yn bwysig.** Nid rôl prosiect fel hwn yw datblygu hynny, ond fe allai profiad broceriaeth gyfrannu at y broses (gan gynnwys unrhyw ymdrechion i wireddu rhai o argymhellion adroddiad Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru "Polisïau Sgiliau a'r iaith Gymraeg").

Datblygwyd y cysylltiadau unigol yn bennaf wrth wireddu gweithgaredd oedd angen lleoliadau. Roedd yr amrywiaeth o gyflogwyr yn adlewyrchu gwahanol ddiddordebau mynychwyr gweithgareddau – yn arbennig y cyrsiau unigol. Nodwyd diddordeb cyflogwyr oedd yn fusnesau bychain, mentrau trydydd sector a cyrff cyhoeddus mawr. Yn ogystal â'r budd uniongyrchol a nodwyd gan gyflogwyr unigol (er enghraifft Prifysgol Bangor sy'n chwilio am staff diogelwch sy'n siaradwyr Cymraeg) soniodd eraill am y budd anuniongyrchol a dyfodd o leoliadau – roedd Antur Waunfawr yn falch o gael cyswllt â rhai o drigolion Peblig o ran eu cyngor ar rai o'u gweithgareddau masnachol, fel y farchnad leol am ddillad ail law.

## 7.5 Mentergarwch

Daeth yn amlwg bod agweddau ar fentergarwch, yn ogystal â chyflogaeth, yn berthnasol mewn gwaith broceriaeth. **Mae chwilio am gyfleoedd ymarferol i gael blas go iawn ar 'neud pres', cychwyn busnes, neu anelu at weld pa botensial sydd yna i naill ai sefydlu mentrau cymdeithasol newydd neu cydweithio gyda rhai sy'n bod eisoes, i gyd yn flaenoriaeth.**

Yn ystod cyfnod diweddar y prosiect, fe ddaeth cyfle i gyd weithio rhwng Ardal Adfywio Strategol Môn Menai, Cyngor Gwynedd, Menter a Busnes a Thai Eryri. **Fe fydd yn allweddol gwreiddio rôl broceriaeth iaith o fewn y broses a sicrhau bod modd i'r froceriaeth weithio'n agos gyda'r rôl o baratoi (mewn amrywiol ffyrdd) bobl leol i fanteisio ar gyfleodd i gael blas ar fentro.**

## 7.6 Asesu newid

Un o'r canlyniadau dymunol pwysicaf i'r prosiect yw cynnydd mewn hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfa waith (ac ymwybyddiaeth o'i werth fel sgil gwaith). Ond un sialens yw darganfod dull effeithiol o asesu hyn.  Arbrofwyd gyda rhai technegau holi a dilyn

trywydd unigolion yn ystod y prosiect. Nid oedd yn bosib sefydlu meincnod ar y cychwyn, fel y nodwyd eisoes. Peryg creu fframwaith o ran meincnod a dilyn trywydd newid dros amser (yn arbennig mewn maes sy'n cyfuno sawl elfen - iaith a gwaith) yw ei fod yn tyfu'n or-gymleth ac yn anymarferol. **Awgrymir y dylid mynd ati yn y cyfnod nesaf i greu fframwaith (gosod meincnod ac asesu newid) addas a'i dreialu, gan ddefnyddio unrhyw arfer a weithredir eisoes fel rhan o Gymunedau'n Gyntaf (y siwrne ar waith Tŷ Peblig) neu a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect. Dylai'r fframwaith gynnwys arolwg agweddol (wyneb yn wyneb) i'w ailadrodd bob tair mlynedd; proses o ddilyn trywydd dros amser unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau; sefydlu 'panel' o drigolion, yn unigolion a teuluoedd, y gellid sicrhau adborth gyson ganddynt.**

## 7.7 Ardaloedd daearyddol

Er mai trigolion ardal benodol (h.y. ward Peblig yn yr achos hwn) yw ffocws y gwaith, mae'r ardal ddaearyddol berthnasol (o ran cyflogaeth a menter) yn ehangach. Fe fydd yn bwysig ystyried hyn wrth edrych i'r dyfodol.


Datblygwyd y prosiect yn benodol ar gyfer ardal gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg, ac mae rhai'n dadlau mai dyma'r unig sefyllfa ble mae brocera o'r fath yn berthnasol, a bod peryg y byddai defnyddio'r un prosesau mewn ardaloedd â chanrannau is o siaradwyr Cymraeg yn gwahanu'r rhesymeg sylfaenol. Nododd eraill y gallai'r egwyddor o gyplysu sgiliau ieithyddol Cymraeg a chyfleoedd gwaith fod yr un mor ddilys mewn ardaloedd ble, er enghraifft, mae niferoedd sylweddol o ddisgyblion ysgol yn cael addysg ddwyieithog (er bod y canran o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hynny'n isel**). Gall yr egwyddorion a'r gwersi o'r prosiect hwn fod yn berthnasol mewn pob math o ardaloedd - ond iddynt gael eu teilwra a'u gweithredu yn wahanol fel bo'n addas.**


# 8. Elfennau allweddol model brocer iaith

Wrth grisialu profiad gweithredu prosiect Brocer iaith Peblig, gellir crynhoi'r elfennau allweddol - a fyddai angen wrth weithredu gweithgaredd tebyg mewn ardaloedd eraill (gweler drosodd):

- bod y trigolion yn ganolbwynt a ffocws y gwaith
- bod dwy elfen i rôl y Brocer, un o ran cysylltu â'r ystod o wasanaethau cefnogi allanol a'r llall o ran darparu rhai gweithgareddau yn uniongyrchol
- bod 'cartref' i'r Brocer - hynny yw, corff lleol sy'n gweithredu ym meysydd adfywio cymunedol, economaidd, ieithyddol;
- bod angen diffinio'r ardal weithredol - gyda'r prif ffocws ar ble mae'r trigolion yn byw, ond gan gydnabod bod yr ardal naturiol economaidd (ble mae'r gwaith) yn debyg o fod yn ehangach
- bod elfen benodol i osod seiliau'r gwaith - gan gynnwys mapio darpariaeth bresennol, ymgysylltu'n ystyrlon a thrigolion, gosod meincnodau a chynllunio (gan ymgorffori ffyrdd o adolygu ar hyd y daith)
- bod gweithredu o bob math yn uniongyrchol trwy gyfrwng cefnogaeth un-i-un, cyrsiau, lleoliadau ac yn y blaen; ac yn ehangach fel rhan o weithgaredd y corff 'cartref' neu eraill.

Mae angen i unrhyw fodel, wrth gwrs, gofio'r weledigaeth sylfaenol, fel isod:






**Cartref** o fewn corff / rôl adfywio neu debyg

**Ardal**

- ffocws - ble bobl byw
- dalgylch economiadd ehangach

**Paratoi / Adolygu**

- mapio
- ymgysylltu
- gosod meincnod
- cynllunio
- adolygu dros amser

**Gweithredu**

- uniongychrchol
  - cefnogaeth
  - cyrsiau
  - lleoliadau
- rhan o weithgaredd ehangach y corff

# 9. Argymhellion

Yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru 'Iaith fyw: iaith byw' nodir:
"Byddwn hefyd yn ystyried a oes modd efelychu'r gwaith sydd wedi'i wneud o fewn Ardal Adfywio Strategol Môn Menai, sy'n cynnwys y fenter Brocer Iaith ym Mheblig, mewn ardaloedd eraill."

**Argymhelliad 1**

**Mae angen cyfnod hirach er mwyn manteisio i'r eithaf ar y profiad rhagarweiniol hwn - ac osgoi gwastraffu'r buddsoddiad gwreiddiol. Dylid sicrhau parhad i'r gwaith cychwynnol o fewn cyd-destun gwaith Cymunedau'n Gyntaf ar ei ffurf newydd yng Ngwynedd.**

**Argymhelliad 2**

**Gan fod y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol Cymraeg newydd a ddatblygwyd o fewn y prosiect yn llenwi bwlch arwyddocaol, dylid ehangu ei ddefnydd.**

**Argymhelliad 3**

**Byddai'n allweddol cynnwys elfennau Brocer Iaith o fewn unrhyw gynllun mentergarwch newydd (sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd) a wireddir yn yr ardal, o ran gwreiddio'r elfennau ieithyddol ac wrth gyfrannu at sicrhau fod y gwaith rhagarweiniol gyda phobl leol yn cael ei gwblhau.**

Yn ehangach, tra bod rhai gwersi eisoes wedi'i dysgu, mae eraill am gymryd cyfnodau hirach i'w gwireddi - yn adlewyrchu'r agenda tymor hir a'r ffyrdd o weithio sy'n fwy tebygol o arwain at gynaladwyedd ac effeithiau mwy ystyrlon.

Er mwyn sicrhau manteisio ar y Gymraeg fel arf yn y broses o wireddu elfennau o'r agenda adfywio cymunedol ac economaidd mae angen rôl broceriaeth

- mewn ardaloedd ble mae canrannau uchel o bobl yn siarad Cymraeg, er mwyn pontio'r bylchau rhwng trigolion, eu hymwybyddiaeth o'u sgiliau ieithyddol, cyrff cefnogi perthnasol, cyflogwyr a chyfleoedd i fentro;
- mewn ardaloedd ble mae llai o bobl yn siarad Cymraeg ond ble mae canran arwyddocaol o bobl ifanc yn datblygu sgiliau Cymraeg trwy gyfrwng addysg ddwyieithog - yn y cyd-destun hwn er mwyn pontio yn benodol gyda meysydd gwaith a chyflogwyr sydd angen y sgiliau ieithyddol hynny.

**Argymhelliad 4**

**Wrth barhau â'r gwaith brocera yn ward Peblig a'r ardal ehangach berthnasol o fewn Cymunedau'n Gyntaf ar ei newydd wedd – fe ddylid trin yr ardal fel labordy ar gyfer gweddill Cymru. Bydd hyn y sicrhau bod y gwersi tymor hir a'r technegau mwyaf effeithiol yn cael eu datblygu, a bod modd parhau i'w rhannu gydag ardaloedd eraill.**

**Argymhelliad 5**

**Dylid rhannu'r gwersi hyd yma (ac yn barhaol) gydag amrywiaeth o ardaloedd yn benodol o fewn y cyd-destun eang adfywio economaidd, cymdeithasol a ieithyddol. Bydd hyn yn creu clwstwr ehangach o brofiad ymarferol nodedig - gan greu rhwydwaith dysgu a gweithredu parhaus.**

**Argymhelliad 6**

**Yn sgil sefydlu Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg, dylid archwilio ffyrdd o gynorthwyo asiantaethau sy'n ymwneud â chyflogaeth i weithredu'n addas o ran gwasanaethau Cymraeg. Yn ehangach dylid sicrhau bod y cyrff prif ffrwd yn blaenoriaethu ffyrdd o gyd-weithio'n fwriadol gyda gwaith Brocera Iaith.**

**Argymhelliad 7**

**Dylid cyplysu'r gwaith hwn gydag ymdrechion ehangach i gyd-gysylltu cyflogwyr o bob math â'r agenda sgiliau a'r Gymraeg.**